# Cyfoeth Naturiol Cymru

# Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

# Dynodiad arfaethedig parc cenedlaethol newydd yng Nghymru

*(Fersiwn 0.4 – Mehefin 2025)*

**Tîm Asesu Amgylcheddol ac Iechyd**

nrwhealthpolicy@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Diolchiadau

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiolch i Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru am ei chyfarwyddyd a'i chymorth wrth gwblhau'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd.

Hoffem hefyd ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Thîm Pobl a Lleoedd Canolbarth a Gogledd-ddwyrain CNC am roi o'u hamser i adolygu a rhoi adborth gwerthfawr ar yr asesiad hwn.

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| 1. Cefndir | 5 |
| 2. Nodau ac amcanion | 9 |
| 3. Methodoleg | 10 |
| 4. Prif ganfyddiadau proffil cymunedol ardal y dynodiad | 11 |
| 5. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned | 17 |
| 6. Adolygiad o'r llenyddiaeth | 18 |
| 6.1 Ecosystemau byd-eang, sefydlogrwydd hinsawdd a bioamrywiaeth | |
| 6.2 Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig | |
| 6.3 Byw, gweithio a dysgu | |
| 6.4 Cymunedau gwydn a ffyrdd iach o fyw | |
| 7. Y prif ganfyddiadau: Yr effeithiau ar grwpiau poblogaeth | 32 |
| 8. Y prif ganfyddiadau: Penderfynyddion iechyd a llesiant | 35 |
| 9. Meysydd gweithredu | 38 |
| 10. Casgliad | 41 |

## Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dynodi parc cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a fu gynt yn ardal o harddwch naturiol eithriadol). Mae awdurdod parc cenedlaethol yn gorff pwrpasol sydd â dyletswyddau cyfreithiol, gan gynnwys cynhyrchu cynllun rheoli, meddu ar bwerau cynllunio llawn dros y parc, a chael cyllid hirdymor gan Lywodraeth Cymru, ardollau lleol a ffynonellau eraill.

Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau, mae CNC wedi cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd i archwilio'r effeithiau posibl ar iechyd a llesiant. Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn ystyried sut y gall ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, a elwir yn benderfynyddion iechyd ehangach, effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth. Mae'r asesiad hwn yn darparu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig â'r dynodiad arfaethedig.

### Yr effeithiau ar grwpiau poblogaeth

Mae'r asesiad o'r effaith ar iechyd yn nodi grwpiau y gellir effeithio arnynt yn anghymesur, ond mae llawer o heriau eisoes yn bodoli. O'i roi ar waith mewn ffordd feddylgar, mae'r dynodiad yn cynnig cyfle allweddol i leihau anghydraddoldebau, gwella llesiant, a buddsoddi mewn cymunedau dan anfantais.

- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm
- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran
- Grwpiau sydd mewn perygl o wahaniaethu neu sydd dan anfantais gymdeithasol
- Grwpiau daearyddol
- Grwpiau galwedigaethol

### Penderfynyddion iechyd a llesiant

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yn canfod y gallai dynodi parc cenedlaethol newydd effeithio'n sylweddol ar benderfynyddion iechyd ehangach, gan effeithio ar y boblogaeth dros yr hirdymor. Mae'n cyflwyno cyfle allweddol i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella llesiant, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais, os caiff ei gefnogi gan bolisi cryf, buddsoddiad ac ymgysylltu â'r gymuned. Er y gallai rhai gwelliannau ddigwydd hebddo, gallai'r parc weithredu fel sbardun, gan alinio ymdrechion, denu cyllid a chreu fframwaith strategol a chynhwysol ar gyfer newid parhaol. Rhaid rheoli effeithiau negyddol posibl yn ofalus, ond mae'r dynodiad hefyd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â heriau presennol mewn ffordd fwy effeithiol.

### Cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol yn sgil dynodi parc cenedlaethol newydd:

- Cyd-fuddion o ran yr hinsawdd ac iechyd
- Gwella iechyd a llesiant drwy fynediad at natur

- Gwytnwch bioamrywiaeth
- Gwella twf economaidd a llesiant y gymuned
- Cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol
- Stiwardiaeth integredig
- Hyrwyddo teithio llesol
- Amaethyddiaeth gynaliadwy

**Effeithiau negyddol a chanlyniadau anfwriadol dynodi parc cenedlaethol newydd:**

- Adnoddau cyfyngedig
- Gordwristiaeth a phwysau ar y seilwaith a gwasanaethau lleol
- Pwysau datblygu
- Effeithiau ar y gallu i gael mynediad at ofal iechyd
- Allgáu cymdeithasol
- Pwysau economaidd ar ffermio
- Materion yn ymwneud â fforddiadwyedd tai

**Meysydd gweithredu:**

Os cânt eu dynodi, bydd ymgorffori'r meysydd gweithredu hyn i reolaeth parc cenedlaethol newydd Cymru yn cynyddu ei fuddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i'r eithaf o ran cynaliadwyedd yn y dyfodol.

**Cydweithredu a chyllido gwell:** Cryfhau cydweithredu rhwng awdurdodau, cymunedau, llywodraethu a busnesau'r parc i gydlynu twristiaeth, y seilwaith a'r defnydd tir, gan fynd i'r afael ag anghenion lleol ar yr un pryd.

**Y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ymaddasu iddo, ac adfer natur:** Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo wrth wraidd gwaith cynllunio a rheoli'r parc cenedlaethol.

**Rheoli twristiaeth yn gynaliadwy:** Rheoli ymwelwyr, teithio cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd, ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch.

**Tai fforddiadwy a chynaliadwy:** Blaenoriaethu mentrau tai fforddiadwy ar gyfer cymunedau lleol, gan gydbwyso cadwraeth ag anghenion economaidd-gymdeithasol trigolion.

**Cynhwysiant a hygyrchedd:** Ehangu mentrau hygyrchedd o fewn y parciau cenedlaethol er mwyn sicrhau y gall grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli digon yn mwynhau'r mannau hyn yn llawn.

**Amaethyddiaeth gynaliadwy a menter wledig:** Cynnig cymorth parhaus i ffermwyr yn y parciau cenedlaethol i fabwysiadu arferion cynaliadwy a hyrwyddo mentrau gwledig cynaliadwy.

**Polisïau cynllunio addasol:** Adolygu ac addasu polisïau cynllunio i daro cydbwysedd rhwng cadwraeth ac anghenion ymarferol cymunedau lleol.

**Gwella cyfleoedd iechyd meddwl ac iechyd corfforol:** Defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella iechyd drwy annog gweithgareddau awyr agored sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol.

**Cefnogi systemau bwyd lleol ac iechyd:** Hyrwyddo cynhyrchu a chaffael bwyd lleol a mentrau gwledig cynaliadwy eraill.

Mae'r parc cenedlaethol arfaethedig yn cynnig cyfle unigryw i wella iechyd, cydraddoldeb a chynaliadwyedd trwy sicrhau mynediad gwell at natur, buddsoddiad cydlynol a chynllunio cynhwysol. Mae llawer o heriau—megis anghydraddoldeb gwledig a phwysau economaidd—eisoes yn bodoli, ond mae'r dynodiad yn cynnig fframwaith strategol i fynd i'r afael â hwy. Mae llwyddiant yn dibynnu ar weithredu teg, rheoli risgiau'n ofalus, ac ymrwymiad hirdymor i ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd a chymdeithas.

## 1. Cefndir

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nodwyd gan Lywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy bresennol (a elwid gynt yn ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE)).

Mae'r cynnig i greu parc cenedlaethol newydd yn tynnu sylw at y rôl y mae parciau cenedlaethol yn ei chwarae wrth warchod a gwella'r amgylchedd a chefnogi datblygiad gwledig cynaliadwy drwy helpu i wneud y canlynol:

- mynd i'r afael â'r argyfwng natur
- cyflawni twristiaeth fwy cynaliadwy[1]

Mae'r ardal ddynodi yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol.

- Gwynedd
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam
- Powys

Dyma fyddai pedwerydd parc cenedlaethol Cymru, a'r parc newydd cyntaf o'i fath i gael ei sefydlu yn y wlad ers 1957.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CNC i werthuso'r achos dros y dynodiad. CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol newydd.

Mae **dibenion** y parciau cenedlaethol wedi'u nodi yn adran 5(1) o Reoliadau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (Deddf 1949):

[1] Llywodraeth Cymru (2024) – Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Newydd. Ar gael yn: Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Newydd | LLYW.CYM (wedi'i gyrchu ar 8 Mai 2025)

(a) cadw a gwella ei harddwch naturiol, ei bywyd gwyllt a'i threftadaeth ddiwylliannol, a

(b) hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig.

Mae adran 5(2) o Ddeddf 1949 yn rhestru'r **meini prawf** y mae'n rhaid i CNC eu hystyried wrth ystyried dynodi parc cenedlaethol. Mae'r ddeddf yn diffinio bod rhaid i barc cenedlaethol fod yn 'ddarn helaeth o gefn gwlad yng Nghymru y mae'n ymddangos i CNC, oherwydd ei:

(a) harddwch naturiol, a
(b) y cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored

o ystyried ei gymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth, mae'n arbennig o ddymunol ei fod yn cael ei ddynodi at ddibenion parc cenedlaethol.

Felly, harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yw'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ardal gael ei dynodi'n barc cenedlaethol.

Mae parc cenedlaethol yn ardal a ddynodwyd gan y Llywodraeth sydd â'r nod o warchod yr amgylchedd naturiol i'r cyhoedd ar gyfer cyfleoedd hamdden, mwynhad a chadwraeth. Mae pob parc yn cael ei reoli gan awdurdod parc cenedlaethol, sef corff pwrpasol ag aelodau penodedig a chyfrifoldebau cyfreithiol, gan gynnwys cynhyrchu cynllun rheoli. Mae gan yr awdurdod bwerau cynllunio llawn yn y parc, gan oruchwylio'r cynllun datblygu lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Daw cyllid o gymorth hirdymor gan Lywodraeth Cymru ac ardoll awdurdod lleol, gyda chyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol.

Fel yr awdurdod dynodi yng Nghymru, rhaid i CNC sicrhau bod digon o dystiolaeth i ddynodi parc cenedlaethol newydd. Mae'r penderfyniad hwn yn dilyn proses statudol, y mae CNC yn anelu at ei chwblhau yn ystod tymor presennol y Senedd (erbyn 2026).

Fel rhan o'r broses ddynodi, comisiynodd CNC Land Use Consultants (LUC) Ltd i gynnal asesiad o'r 'grymoedd dros newid' – y prif ddylanwadau dynamig sy'n effeithio ar nodweddion arbennig yr ardal. Yn dilyn hyn, cynhaliodd LUC werthusiad manwl o'r gwahanol opsiynau rheoli, gan gymharu eu potensial i fynd i'r afael â'r grymoedd hyn a chyflawni canlyniadau cadarnhaol hirdymor.


Roedd y dewisiadau a ystyriwyd yn cynnwys y canlynol:

- dim newid
- bwrdd cadwraeth tirwedd genedlaethol (AHNE) dros ardal ehangach
- modelau amgen megis Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Pharc Rhanbarthol De'r Penwynion
- parc cenedlaethol

Mae CNC wedi cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd er mwyn sicrhau bod ystyriaethau sy'n ymwneud ag iechyd yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y broses asesu. Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yn seiliedig ar yr opsiwn parc cenedlaethol, a nodwyd gan LUC fel y dull a ffefrir yn yr asesiad o'r opsiynau rheoli a gomisiynwyd gan CNC.

Bydd Bwrdd CNC yn penderfynu ar natur dynodiad newydd a pha mor ddymunol ydyw, a bydd yr asesiad o'r effaith ar iechyd yn cyfrannu at sicrhau y gall y bwrdd wneud penderfyniad ar sail yr holl wybodaeth. Os yw'r dystiolaeth yn cefnogi dynodiad newydd, bydd gorchymyn dynodi yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd yr holl dystiolaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd a all helpu i lywio'r penderfyniad terfynol. Yna, bydd Gweinidogion yn ystyried a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn. Os caiff ei gadarnhau, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â sefydlu pedwerydd parc cenedlaethol Cymru.

## Candidate Area for a New National Park




Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. Crown Copyright and Database Right.Contains OS data © Crown copyright and database right. All rights reserved. Ordnance Survey Licence number AC0000849444.

## 2. Nodau ac amcanion

Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn ffordd o asesu effeithiau polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd gan ddefnyddio technegau meintiol, ansoddol a chyfranogol.[2] Mae'n cwmpasu diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) lle nodir: "Lles cyflawn corfforol, meddyliol a chymdeithasol yw iechyd, nid dim ond absenoldeb clefyd neu lesgedd".[3]

Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn gweithredu ar fodel cymdeithasol sy'n cydnabod dylanwad amrywiol ffactorau, a elwir yn benderfynyddion ehangach iechyd (gan gynnwys lefelau incwm, amodau amgylcheddol, mynediad at wasanaethau, tai ac ati), ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Ar ben hynny, gall asesiad o'r effaith ar iechyd nodi ac archwilio anghydraddoldebau iechyd oherwydd y gall y penderfynyddion hyn effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth bregus mewn ffyrdd gwahanol.

Cynhelir yr asesiad hwn o'r effaith ar iechyd ar sail y cred bod gan ddynodiad parc cenedlaethol newydd y potensial i ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd. Mae newidiadau yn y penderfynyddion iechyd hyn wedi hynny yn arwain at newidiadau mewn canlyniadau iechyd neu statws iechyd cyffredinol y rheini sy'n byw, yn gweithio, yn astudio, neu'n ymweld ag ardaloedd o fewn ffiniau'r parc neu gerllaw iddynt.

Amcan yr asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yw datblygu argymhellion ar sail tystiolaeth sy'n gwella'r effeithiau cadarnhaol posibl ar iechyd ac yn lliniaru effeithiau negyddol anfwriadol posibl ar iechyd, er mwyn helpu i arwain y broses o wneud penderfyniadau o ran dynodiad posibl parc cenedlaethol newydd yng Nghymru. Er nad yw'r asesiad o'r effaith ar iechyd yn statudol yng Nghymru eto (bydd yn dod yn statudol pan fydd Rheoliadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) fel rhan o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd Cymru (Cymru) 2017 wedi cael eu deddfu), mae CNC yn ystyried mai'r arferion gorau yw cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau.

Rhagwelir, erbyn i benderfyniad i ddynodi parc cenedlaethol newydd gael ei wneud, y bydd Rheoliadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) wedi cael eu deddfu. Os bydd y dynodiad yn mynd rhagddo, bydd yn ofyniad statudol i awdurdod y parc cenedlaethol, fel corff cyhoeddus, gynnal ei asesiad o'r effaith ar iechyd ei hun o dan rai amgylchiadau. Yna gallai awdurdod y parc cenedlaethol ddefnyddio canfyddiadau'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd i lywio ei asesiad.

Ar ben hynny, mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn cyd-fynd yn gryf â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gefnogi ei hegwyddorion craidd o feddwl hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn darparu dull strwythuredig o nodi sut y gall cynlluniau neu bolisïau effeithio ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig o ran grwpiau bregus, gan alluogi cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo Cymru iachach a mwy cyfartal. Trwy werthuso'r effeithiau anfwriadol cadarnhaol a negyddol ar iechyd, mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn helpu i atal niwed yn y dyfodol, yn cyd-fynd â nod y Ddeddf o ddatblygu cynaliadwy, ac yn cyfrannu at sawl nod llesiant, gan gynnwys cymdeithas iachach, fwy cyfartal a chydlynol. Mae hefyd yn annog gweithio traws-sector ac ymgysylltu â'r gymuned, gan sicrhau bod y

---

[2] Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (2012) – Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol. Ar gael yn: Asesu'r Effaith ar Iechyd – Canllaw ymarferol (wedi'i gyrchu ar 7 Ebrill 2025)

[3] Sefydliad Iechyd y Byd (2025). Ar gael yn: Cyfansoddiad Sefydliad Iechyd y Byd (wedi'i gyrchu ar 6 Mawrth 25)

broses o wneud penderfyniadau yn adlewyrchu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## 3. Methodoleg

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yn dilyn y fethodoleg a amlinellir yn Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2012).[2] Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn broses safonol pum cam, a chrynhoir y fethodoleg ar gyfer yr asesiad isod:

1. Sgrinio: Nododd cydweithio rhwng timau mewnol CNC y gallai dynodiad parc cenedlaethol newydd yng Nghymru effeithio ar iechyd a llesiant, lle gellid effeithio ar grwpiau poblogaeth amrywiol.

2. Cwmpasu: Dyrannwyd a chytunwyd ar adnoddau gan CNC. Mae'r asesiad o'r effaith ar iechyd yn cael ei gynnal yn fewnol gan y Tîm Asesu Amgylcheddol ac Iechyd fel asesiad cyflym, ar lefel strategol, gan ddefnyddio methodoleg wedi'i thargedu a gefnogir gan dystiolaeth gadarn ar lefel poblogaeth ehangach. Mae'r amserlen yn cyd-fynd ag amserlen y rhaglen ddynodi.

3. Gwerthusiad – Casglu tystiolaeth: Fel rhan o'r asesiad, bydd y gwerthusiad o dystiolaeth i nodi effeithiau ar iechyd yn ymgorffori adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau, ymgysylltu / ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymuned, ac adolygiad llenyddiaeth.

   - Mae'r adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau yn cynnig trosolwg manwl o ddemograffeg, ffactorau economaidd-gymdeithasol, a nodweddion penodol y poblogaethau y gellir effeithio arnynt gan y prosiect neu'r polisi arfaethedig. Mae hyn yn helpu i nodi grwpiau bregus, anghydraddoldebau iechyd posibl, ac amodau lleol y mae angen eu hystyried yn yr asesiad o'r effaith ar iechyd.
   - Mae ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymuned yn sicrhau bod safbwyntiau, pryderon a gwybodaeth leol y rheini yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn cael eu hymgorffori. Mae'r broses hon yn caniatáu inni nodi problemau iechyd nad ydynt efallai wedi'u cynnwys yn llawn mewn ymchwil neu ddata presennol, gan amlygu anghenion a blaenoriaethau penodol y gymuned. Y mae hefyd yn sicrhau bod yr asesiad o'r effaith ar iechyd yn adlewyrchu profiadau bywyd a heriau unigryw'r poblogaethau yr effeithir arnynt.
   - Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn darparu sylfaen sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy grynhoi ymchwil sy'n bodoli eisoes ar effeithiau ar iechyd, polisïau perthnasol ac arferion gorau. Mae hyn yn cysylltu'r asesiad o'r effaith ar iechyd â phersbectif ehangach, gan gynnig cipolwg ar ganlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd tebyg mewn mannau eraill.

   Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cyfuno i lywio'r asesiad o'r effaith ar iechyd trwy ymgorffori tystiolaeth, cyd-destun lleol, a safbwyntiau'r gymuned. Mae'r cyfuniad hwn yn sicrhau y bydd yr asesiad o'r effaith ar iechyd yn gynhwysfawr ac yn berthnasol i'r cyd-destun, gan ganiatáu asesiad trylwyr er mwyn nodi'r prif

effeithiau ar iechyd, canlyniadau cadarnhaol posibl a negyddol anfwriadol ar bawb y gellir effeithio arnynt gan y penderfyniad dynodi.

4. Adrodd ac argymhellion:Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio gyda chamau gweithredu awgrymedig, ac yna broses sicrhau ansawdd gyda rhanddeiliaid allweddol. Cyhoeddir yr asesiad o'r effaith ar iechyd a dosberthir yr adroddiad drwy'r Tîm Tirwedd Ddynodedig.

5. Adolygu, myfyrio a monitro: Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o'r broses o gynnal yr asesiad o'r effaith ar iechyd.

## 4. Prif ganfyddiadau proffil cymunedol yr ardal ymgeisiol

Diben yr adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau yw rhoi cipolwg cynhwysfawr ar ddemograffeg, ymddygiadau ffordd o fyw ac anghydraddoldebau'r boblogaeth yr effeithir arni gan ddynodiad parc cenedlaethol newydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n byw, gweithio, dysgu a threulio amser o fewn ffiniau'r parc neu gerllaw.

Mae'n bwysig deall y tueddiadau demograffig lleol, ond mae hefyd yn bwysig deall hyn mewn perthynas â'r cyd-destun cenedlaethol er mwyn canfod a ydyw'r dynodiad yn gallu sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ehangach trwy ddarparu llawer o fuddion i bobl, yr amgylchedd, a'r broses o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Mae'r adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau yn nodi tystiolaeth iechyd allweddol ynghyd ag ystadegau demograffig, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn Atodiad A.

Mae ardal y dynodiad yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Phowys. Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad Deall Poblogaethau a Chymunedau:

Mae gan yr ardal ddynodedig boblogaeth sy'n heneiddio. Yn unol â gweddill y wlad, mae nifer y bobl yn y grŵp oedran 65 oed neu'n hŷn wedi cynyddu yn y pum awdurdod lleol o fewn ardal y dynodiad yn y cyfnod 10 mlynedd rhwng 2011 a 2021, a rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn yn parhau i gynyddu[4].

Mae nifer y cymunedau ethnig leiafrifol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrecsam yw'r unig ardal awdurdod lleol lle mae nifer y cymunedau ethnig leiafrifol yn fwy unol â'r cyfartaledd cenedlaethol[5].

Yn Sir Ddinbych, mae 23.3% o drigolion yn wynebu problemau iechyd neu anableddau hirdymor, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 21.6%. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfrannau'n is na chyfartaledd Cymru mewn rhanbarthau eraill: 19.1% yn Sir y Fflint, 19.2% yng Ngwynedd, 20.3% ym Mhowys, a 20.4% yn Wrecsam[6].

---

[4] Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), wedi'i rhyddhau ar 28 Mehefin 2022, gwefan ONS, bwletin ystadegol Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd Cymru, Cyfrifiad 2021.pdf
[5] StatsCymru (2023) – Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig. Ar gael yn: Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig
[6] Data Nomis, Cyfrifiad 2021.QS303EW – Problem iechyd neu anabledd hirdymor. Ar gael ar-lein yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?opt=3&theme=&subgrp=

Mae dros 60% o aelwydydd yng Nghymru naill ai'n aelwydydd un person neu'n aelwydydd dau berson heb blant. Y mathau hyn o aelwydydd yw'r rhai mwyaf cyffredin, gyda'u niferoedd yn cynyddu'n gyson rhwng 2012 a 2023. Mae'r duedd hon yn amlwg ar draws pob un o'r pum ardal awdurdod lleol[7].

Yng Ngwynedd, mae 64.3% o drigolion (3 oed neu'n hŷn) yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.8%. Yn yr un modd, mae gan Sir Ddinbych hefyd ganran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda 22.5% o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg. Mewn cyferbyniad, mae'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym Mhowys (16.4%), Wrecsam (12.2%) a Sir y Fflint (11.6%)[8].

O ran statws economaidd-gymdeithasol, mae mwyafrif trigolion (rhwng 18.3% a 20.4%) Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam mewn swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is, sy'n fwy neu lai'n gyfartal â chyfartaledd Cymru gyfan. Yn ogystal, mae 18.8% a 14% o drigolion Powys a Gwynedd yn y drefn honno yn gyflogwyr bach ac yn weithwyr ar eu liwt eu hunain, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 10.1%[9].

Bu cynnydd yn nifer yr unigolion 16 i 18 oed sy'n cael eu dosbarthu fel unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) rhwng 2015 a 2022. Mewn cyferbyniad, mae nifer yr unigolion 19 i 24 oed yn y categori NEET wedi gostwng dros yr un cyfnod[10].

Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, nodwyd ardaloedd sylweddol o amddifadedd cymharol uchel yn nhrefi arfordirol a ffiniol y Gogledd. Mae ardal ddynodiad arfaethedig y parc cenedlaethol yn cynnwys 57 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yng Nghymru, wedi'u gwasgaru dros bum ardal awdurdod lleol:Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam. Mae'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd.

- Mae 19 o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn gyffredinol (gweler Map 1).
- Mae 14 o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran iechyd (gellir gweld y map yn Atodiad A)
- Mae saith ardal cynnyrch ehangach haen is ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr amgylchedd ffisegol (gellir gweld y map yn Atodiad A)
- Mae 45 o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad i wasanaethau

Mae proffil amddifadedd pob un o'r 57 ardal cynnyrch ehangach haen is ar gael drwy'r ddolen hon: Proffil amddifadedd MALlC ardal ddynodedig y parc cenedlaethol arfaethedig[11] (Mae hwn wedi'i atodi fel dogfen ar wahân y gellir cyfeirio ati'n allanol).

Mae parth Mynediad i Wasanaethau MALlC yn mesur amddifadedd o ganlyniad i analluedd aelwyd i gael mynediad i amrywiaeth eang o wasanaethau a ystyrir yn angenrheidiol ar


---

[7] Rhagamcaniadau StatsCymru o aelwydydd fesul math a blwyddyn (2011). Ar gael yn: Aelwydydd fesul math a blwyddyn
[8] StatsCymru (2021) – Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn oedran, 2011 a 2021. Ar gael yn: Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn oedran, 2011 a 2021
[9] Data Nomis, Cyfrifiad 2021.TS062 – NS-SeC. Ar gael ar-lein yn: Dim set ddata wedi'i dewis – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur
[10] StatsCymru (2023) – Amcangyfrif o unigolion 16–24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran. Ar gael yn: Amcangyfrif o unigolion 16–24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran
[11] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Ar gael yn: MALlC – Hafan (llyw.cymru)

gyfer bywyd bob dydd, yn ffisegol ac ar-lein. Mae amseroedd teithio Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer teithio cyhoeddus a phreifat. Ym Mhowys a Sir Ddinbych mae'r amseroedd teithio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer teithio cyhoeddus. Er bod amseroedd teithio preifat ym Mhowys yn fwy unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, maent yn parhau i fod yn uwch.[12]

Sir y Fflint a Wrecsam yw'r unig ardaloedd awdurdod lleol lle mae canran yr aelwydydd sy'n agos at fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 77%. Mae Powys yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o bron i 14%.[13]

[12] StatsCymru (2023). Ar gael yn: [Data dangosyddion yn ôl awdurdod lleol – Pob maes (llyw.cymru)]




Contains © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. Crown Copyright and Database Right. © Crown copyright: Welsh Government. © Office National Statistics Data (2015)

Ar draws Cymru, roedd y mwyafrif o'r plant yn treulio amser hamdden yn yr awyr agored mewn mannau gwyrdd neu yn eu gerddi cefn bob dydd neu ychydig o weithiau'r wythnos, gyda 49% o blant mewn ardaloedd trefol a 56% o blant mewn ardaloedd gwledig yn treulio amser mewn gerddi cefn, a 24% o blant o ardaloedd trefol a 13% o blant o ardaloedd gwledig yn treulio amser mewn parciau, gan gymryd rhan, yn bennaf, mewn gweithgareddau fel chwarae yn yr awyr agored, cerdded, rhedeg, neu reidio beic[13].

Adroddodd dros 75% o oedolion yng Nghymru ar draws pob grŵp oedran am ymweliadau hamdden yn yr awyr agored yn ystod y flwyddyn a'r mis diwethaf; yn bennaf ar gyfer cerdded, awyr iach, iechyd, mwynhad, neu amser gyda'r teulu. I'r mwyafrif, y rhwystr pennaf yw cyfyngiadau amser, ac o ran oedolion hŷn a'r rheini mewn amddifadedd materol, y prif rwystrau yw oedran, anabledd, neu broblemau iechyd.[13]

O ran teithio llesol, fel arfer, mae 50% o boblogaeth Cymru yn cerdded (am fwy na 10 munud) fel dull teithio bob wythnos. Mae mwy na 90% o'r boblogaeth yn defnyddio beic yn anaml neu ddim o gwbl fel dull teithio[14]. (Nid oes modd dadgyfuno'r data teithio llesol ar lefel yr awdurdod lleol oherwydd meintiau sampl annigonol)

Mae'r cyfartaledd cenedlaethol yn dangos bod y bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes iach adeg geni rhwng y mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn 16.9 mlynedd i fenywod a 13.3 mlynedd i wrywod. Yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Gwynedd, mae'r bwlch yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y ddau rywedd. Yn Wrecsam, mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer dynion (18.8 oed) ond yn is ar gyfer menywod. Ym Mhowys, mae'r bwlch yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer dynion (15.2 mlynedd) ond yn is ar gyfer menywod[15].

Yn y pum ardal awdurdod lleol, mae tua 60% o oedolion (16 neu'n hŷn) dros bwysau neu'n ordew – ac mae chwarter o'r rheini wedi'u dosbarthu fel gordew. Mae ychydig dros 50% o oedolion yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol.[17]

Yng Ngwynedd (13%), Sir Ddinbych (12.2%) a Wrecsam (12.4%), mae canran y plant pedair i bum oed sy'n ordew yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 11.8%. Ar y llaw arall, mae Powys (10.5%) a Sir y Fflint (11.2%) ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.[17]

Yng Nghymru, mae 79.1% o blant 11 i 16 oed yn nodi eu bod yn y categori BMI 'dan bwysau / pwysau normal', gyda Phowys, Wrecsam, Sir Ddinbych a Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, a Sir y Fflint ychydig yn is. Mae cyfraddau gweithgarwch corfforol dyddiol ar gyfer bechgyn 11 i 16 oed yng Nghymru yn 20.7%, ac yn 11.9% ar gyfer merched. Mae'r cyfraddau gweithgarwch ar gyfer menywod yng Ngwynedd, Powys, Sir y Fflint a Sir Ddinbych ychydig yn uwch na'r cyfartaledd, tra bod Wrecsam yn is. O ran dynion, mae Powys a Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd, tra bod Gwynedd, Sir y Fflint a Wrecsam yn is.[17]

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ystyried a oes gan bobl ymdeimlad o gymuned. Gwelwyd ymatebion amrywiol ar draws y pum ardal awdurdod lleol, gyda Gwynedd yn cael y sgôr uchaf, gyda 73% o'r ymatebwyr yn mynegi ymdeimlad o gymuned, ac yna Powys

[13] Arolwg Cenedlaethol Cymru (2023). Ar gael yn: Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU
[14] Arolwg Cenedlaethol Cymru (2023) Teithio llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Fawrth 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU
[15] Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd (2024). Ar gael yn: Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

(71%) a Sir Ddinbych (69%). Mewn cyferbyniad, Sir y Fflint a Wrecsam a sgoriodd yr isaf, sef 63% a 59% yn y drefn honno, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol o 64%.[15]

Roedd y canfyddiadau o ran a ydyw newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru ar hyn o bryd ar eu huchaf yng Ngwynedd (83%), Powys (81%), a Sir y Fflint (75%), pob un yn sgorio’r un peth â’r cyfartaledd cenedlaethol o 75% neu’n uwch na hynny. Mewn cyferbyniad, y canfyddiadau yn Wrecsam a Sir Ddinbych oedd yr isaf, sef 66% a 64% yn y drefn honno, sy’n golygu bod y ddau yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol.[15]

Gofynnwyd i bobl am eu pryderon ynghylch newidiadau i amrywiaeth rhywogaethau yng Nghymru. Roedd yr ymatebion yn amrywio, gyda Gwynedd, Powys a Sir Ddinbych yn pryderi mwyaf, a Sir y Fflint yn adlewyrchu’r cyfartaledd cenedlaethol yn agos gyda phryder cymedrol, tra bod Wrecsam yn pryderi’r lleiaf.[15]

## 5. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned

Fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar iechyd, cynhaliwyd gwerthusiad o'r effeithiau cadarnhaol ac anfwriadol posibl ar iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â dynodi parc cenedlaethol drwy nodi gwybodaeth, dealltwriaeth a thystiolaeth hanfodol a ddarparwyd gan y boblogaeth leol a rhanddeiliaid allanol.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned yn helpu i nodi pryderon lleol ynghylch iechyd, casglu safbwyntiau amrywiol a sicrhau proses o wneud penderfyniadau cynhwysol. Mae'n hyrwyddo tryloywder, yn meithrin ymddiriedaeth, ac yn gwella perthnasedd ac effeithiolrwydd yr ymyriadau iechyd.

Roedd yr ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned yn cynnwys y canlynol:

Ymgysylltu â'r Gymuned 2023

Cynhaliodd CNC ymgysylltiad cynnar (9 Hydref hyd 27 Tachwedd 2023) i gasglu adborth ar fap yr ardal chwilio ar gyfer y cynnig ar gyfer parc cenedlaethol. Nid ymgynghoriad ffurfiol oedd hwn, ond roedd yn cynnig cyfle i rannu map cychwynnol yr ardal chwilio a chasglu adborth a gwybodaeth, yn enwedig gan drigolion a rhanddeiliaid. Ei nod oedd deall safbwyntiau, casglu tystiolaeth, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y boblogaeth leol.

Yn ystod y saith wythnos, cynhaliwyd 11 digwyddiad: cynhaliwyd chwech ar-lein a phump digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb. Roedd pedwar digwyddiad ar-lein arall wedi'u targedu at grwpiau penodol o randdeiliaid; aelodau etholedig, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, grwpiau twristiaeth a hamdden, a'r sector ynni adnewyddadwy. Yn anffodus, tynnwyd y sesiwn ar-lein i berchnogion tir wedi'i thargedu yn ôl oherwydd diffyg diddordeb. Gwahoddwyd pob unigolyn a fu'n bresennol i gwblhau holiadur.

At ei gilydd, cafwyd 619 o bobl yn bresennol wyneb yn wyneb, 105 ar-lein, gyda 966 o holiaduron wedi'u cwblhau ac adborth ychwanegol drwy negeseuon e-bost.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth fanwl ynghylch Ymgysylltu â'r Gymuned 2023 yma.

Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos o hyd ar y parc cenedlaethol newydd arfaethedig yng Nghymru rhwng 7 Hydref ac 16 Rhagfyr 2024, gan ganiatáu i'r rheini a fu'n bresennol ddysgu am y prosiect, adolygu tystiolaeth, gofyn cwestiynau, a rhoi adborth ar fap drafft yr ardal ymgeisiol.

Mae'r map ardal ymgeisiol yn nodi ardaloedd y canfyddir, ar ôl gwerthusiad manwl gan ymgynghorydd tirwedd annibynnol a phrofiadol, eu bod yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer parc cenedlaethol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd 20 o ddigwyddiadau: naw ar-lein ac un ar ddeg o ddigwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb. Roedd 10 o'r digwyddiadau galw heibio yn agored i'r cyhoedd; roedd un digwyddiad galw heibio wedi'i dargedu at y sector amaethyddol a pherchnogion tir. O'r naw digwyddiad ar-lein, roedd tri yn agored i'r

cyhoedd, tra bod chwech wedi'u hanelu at grwpiau wedi'u targedu, gan gynnwys aelodau etholedig, grwpiau hamdden a mynediad, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, y sector ynni adnewyddadwy, cyfleustodau, a busnes a thwristiaeth. Gwahoddwyd pob unigolyn a fu'n bresennol i gwblhau holiadur.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur o Ymgysylltu â'r Gymuned 2023 a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 yn cynnwys miloedd o sylwadau yn mynegi amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn ynghylch y dynodiad arfaethedig o barc cenedlaethol newydd.

Mae'r ymatebion wedi'u trefnu mewn tabl gwerthuso effaith, wedi'u grwpio yn ôl y penderfynyddion ehangach iechyd, gan ganiatáu ar gyfer gwerthusiad strwythuredig o'r canlyniadau iechyd posibl. Mae'r tabl hwn yn helpu i gategoreiddio hyd yr effeithiau yn ogystal â'r demograffeg yr effeithir arno. Mae'r dull systematig hwn yn sicrhau bod yr asesiad o'r effaith ar iechyd yn cael ei lywio gan dystiolaeth sydd wedi'i gwreiddio mewn gwybodaeth leol a blaenoriaethau rhanddeiliaid, gan feithrin proses dryloyw o wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn y pen draw.

Mae'r sbectrwm llawn o effeithiau wedi'i gofnodi yn y Tabl Asesu Effaith yn Atodiad B. Gellir gweld y prif themâu o'r tabl Asesu Effaith isod.

- Ecosystemau byd-eang, sefydlogrwydd hinsawdd a bioamrywiaeth
    - risgiau yn y dyfodol o ganlyniad i gynnydd yn newid yn yr hinsawdd
    - effeithio ar wytnwch bioamrywiaeth
    - dylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth
    - effeithio ar adfywio

- Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
    - effeithio ar lygredd (e.e. dŵr / aer / sŵn / gwastraff)
    - effeithio ar fynediad i seilwaith gwyrdd
    - dylanwadu ar gynllunio defnydd tir
    - effaith ar dai

- Byw, gweithio a dysgu
    - dylanwadu ar yr economi leol a thwristiaeth
    - effeithio ar ddiogelwch cymunedol
    - effaith ar gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant
    - dylanwadu ar deithio llesol
    - effaith ar fynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau (e.e. amwynderau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau hamdden ac iechyd)
    - effaith ar ddyled bersonol a dyled aelwydydd

- Cymunedau gwydn a ffyrdd o fyw iach
    - dylanwadu ar y cysylltiad â natur
    - effaith ar ddiogelwch cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
    - dylanwadu ar ddewisiadau bwyd iach
    - dylanwadu ar y gallu i fod yn gorfforol egnïol (e.e. chwarae, cerdded a beicio, garddio, hamdden a chwaraeon)
    - effaith ar iechyd meddwl a llesiant

- dylanwadu ar gydlyniant cymunedol
- dylanwadu ar yr ymdeimlad o reolaeth
- gweithgarwch cymryd risgiau

## 6. Prif ganfyddiadau yr adolygiad llenyddiaeth

### 6.1 Ecosystemau byd-eang, sefydlogrwydd hinsawdd a bioamrywiaeth

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol, wrth reoli parc cenedlaethol, i awdurdodau sicrhau bod datblygiad y parc yn hyrwyddo llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol, gan gydbwyso cadwraeth â budd cymunedol. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau parciau cenedlaethol baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli sy'n nodi gweledigaeth, amcanion a nodweddion arbennig yr ardal y bwriedir eu gwarchod a'u gwella.[16]

Mae tystiolaeth yn dangos bod parciau cenedlaethol yn darparu un o'r ffynonellau unigol mwyaf o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystemau diogel ochr yn ochr â'u rolau mwy cydnabyddedig o ran cadwraeth bioamrywiaeth a hamdden[17]. Fodd bynnag, yn gyfrannol, ychydig iawn o dir sydd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yn y parc cenedlaethol. Ers eu sefydlu, mae awdurdodau parciau cenedlaethol a phartneriaethau tirweddau cenedlaethol wedi cydweithio â ffermwyr a rheolwyr tir, gan gydnabod amaethyddiaeth fel y prif ddefnydd tir a dull hanfodol o fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd.[18]

Cynhyrchwyd mentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi mesurau sefydlogrwydd hinsawdd a gwytnwch bioamrywiaeth drwy'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth. Ei nod yw amddiffyn 30% o dir a chefnforoedd y Ddaear erbyn 2030 drwy gynllun adfer natur â blaenoriaeth wedi'i ymgorffori mewn cynllunio strategol a sefydlu parc cenedlaethol newydd yng Nghymru i yrru ymdrechion i liniaru'r effeithiau ar yr hinsawdd ac ymdrechion adfer natur yn eu blaen.[19]

Mae'r parciau cenedlaethol presennol yn ymgymryd â phrosiectau i hyrwyddo gwaith adfer natur a chryfhau'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn eu rhanbarthau, gan gynnwys gwaith adfer mawndiroedd sydd wedi'u difrodi, gwaith amddiffyn ac adfer fforestydd glaw Celtaidd a gwaith rheoli llifogydd.[20] Nod prosiectau adfer ym Mharc Cenedlaethol Eryri yw adfer mawndiroedd a gwlyptiroedd, fel ym Mwlch y Groes, gan ddefnyddio cyllid a grantiau carbon. Mae ymdrechion fel blocio ffosydd draenio ac ail-lysdyfu mawn yn gwella dal a storio carbon, cadw dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd, gwella ansawdd dŵr, a chynnal cynefinoedd bywyd gwyllt.[21]

Mae mesurau sefydlogrwydd hinsawdd a gwytnwch bioamrywiaeth o fewn amgylchedd parc cenedlaethol yn cyflwyno amrywiol gyfleoedd iechyd neu "gyd-fuddion", megis

---

[16] Deddf yr Amgylchedd 1995. Ar gael yn: Deddf yr Amgylchedd 1995 (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[17] Dudley, N ac eraill (2013) National Parks with Benefits: How Protecting the Planet's Biodiversity Also Provides Ecosystem Services. Ar gael ar-lein yn: https://citeseerx.ist.psu.edu/document?repid=rep1&type=pdf&doi=716c16b429494a34a49811000da71c7a8e0a8db9 (Wedi'i gyrchu ar 4 Mawrth 25)
[18] Tirweddau Cymru (2025) *Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Cymru – Datgloi potensial Tirweddau Dynodedig.* Ar gael ar-lein yn: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Cymru – Datgloi potensial Tirweddau Dynodedig – Tirweddau Cymru (wedi'i gyrchu ar 4 Mawrth 25)
[19] Llywodraeth Cymru (2022) *Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion.* Ar gael ar-lein yn: Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 4 Mawrth 25)
[20] National Parks UK (2025) *Climate Change.* Ar gael yn: Climate Change – National Parks
[21] Parc Cenedlaethol Eryri (2025) Prosiectau Adfer Mawndiroedd. Ar gael yn: Gwaith adfer mawndiroedd Eryri | Parc Cenedlaethol Eryri (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)

hyrwyddo teithio llesol, a gallant wella mynediad i amgylcheddau gwyrdd, glas a naturiol.[22] Gall y camau gweithredu hyn arwain at ragor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a hamdden, annog twristiaeth yng Nghymru, gwella ansawdd aer, a meithrin cysylltiadau â natur mewn mannau gwyrdd a glas, gan fod o fudd i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.

Fodd bynnag, efallai y bydd cyfnewidiadau rhwng buddion y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel gwaethygu anghydraddoldebau. Er enghraifft, efallai na fydd gan rai cymunedau neu unigolion fynediad cyfartal i fuddion y mentrau hyn o ran iechyd, a gall ailddosbarthu effeithiau iechyd symud i wahanol ardaloedd neu grwpiau.[23][24]

Bob blwyddyn, mae tri pharc cenedlaethol Cymru yn denu tua 12 miliwn o ymwelwyr, gyda thri chwarter o boblogaeth Cymru yn elwa ar yr awyr agored trwy ymweliadau â pharciau cenedlaethol.[25] Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dynodiad parc cenedlaethol hybu nifer yr ymwelwyr, a all, yn ei dro, gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a'r amgylcheddau unigryw yn yr ardaloedd hyn, fel y gwelwyd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ar ôl cyfyngiadau COVID-19.[26,27] Gall gor-dwristiaeth ddiraddio ecosystemau sensitif, gan beryglu cynaliadwyedd hirdymor y parciau hyn o ran gweithgarwch hamdden dynol a chadwraeth bioamrywiaeth. Mae'r effeithiau posibl hyn yn cael eu hasesu ochr yn ochr ag asesiad economaidd a gomisiynwyd gan CNC i sicrhau dealltwriaeth gytbwys o effeithiau'r dynodiad.

Mae'r heriau sy'n wynebu awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru o ran rheoli mynediad a thwristiaeth gynaliadwy yn cael eu gwaethygu gan y ffaith na allant reoli strategaethau twristiaeth ehangach. Tynnodd yr ymchwydd yn nifer yr ymwelwyr yn 2020 sylw at y cydbwysedd bregus rhwng dibenion statudol a dyletswyddau awdurdodau parciau cenedlaethol. Mae deddfwriaeth yn nodi'n glir, os bydd gwrthdaro'n codi rhwng y dibenion hyn, fod rhaid i gadwraeth gael blaenoriaeth dros hamdden.[28]

Mae twf twristiaeth wedi rhoi pwysau cynyddol ar seilwaith, gan arwain at broblemau fel tipio anghyfreithlon, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharcio anghyfrifol. Mae rhai o'r heriau hyn yn deillio o ymddygiad anystyriol yr ymwelwyr, tra bod eraill yn codi o ddiffyg mannau parcio dynodedig i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o ymwelwyr. Nid yn unig bod

[22] Active Travel England (2024) Working with National Parks. Ar gael yn: Working with National Parks | Active Travel England (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[23] Y Gymdeithas Frenhinol ac Academi'r Gwyddorau Meddygol (2021) *A healthy future – tackling climate change mitigation and human health together*. Ar gael yn: A healthy future – tackling climate change mitigation and human health together (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)
[24] Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (2023) *Policy position: Climate change and women's health*. Ar gael yn: climate-change-and-womens-health-rcog-policy-position.pdf (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 25)
[25] Archwilio Cymru (2022) *Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru*. Ar gael yn: *Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru* (wedi'i gyrchu ar 3 Mawrth 2025)
[26] Parc Cenedlaethol Eryri (2025) Adroddiad yn amlygu'r ffyrdd y mae niferoedd ymwelwyr yn effeithio ar fywyd gwyllt yng ngogledd-orllewin Cymru. Ar gael yn: Adroddiad yn amlygu'r ffyrdd mae niferoedd ymwelwyr yn effeithio ar fywyd gwyllt yng ngogledd-orllewin Cymru (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[27] Action to Protect Rural Scotland (2025) Social and Economic Benefits of National Parks. Ar gael yn: Social and Economic Benefits of National Parks – Action to Protect Rural Scotland (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)
[28] Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Ar gael yn: Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (wedi'i gyrchu ar 3 Mawrth 25)

yr effeithiau hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion lleol, ond maent hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau hanfodol. [29,30]

Gall cynnydd mewn twristiaeth, yn enwedig gan ymwelwyr sy'n anghyfarwydd â risgiau yn ymwneud â'r perygl o lifogydd, wneud rhai grwpiau'n fwy agored i niwed yn ystod llifogydd. Mae'r rheini sy'n aros mewn meysydd gwersylla ar dir isel, parciau carafanau ger afonydd, neu lety tymor byr mewn parthau llifogydd risg uchel yn wynebu risgiau uwch. [31]

Ar ben hynny, mae tanau gwyllt ym mharciau cenedlaethol y DU yn dwyn effeithiau ecolegol, economaidd a chymdeithasol sylweddol, gan gynnwys dinistrio cynefinoedd, colli bioamrywiaeth, yn erydu'r pridd ac yn rhyddhau allyriadau carbon sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Mae'r tanau hyn hefyd yn niweidio economïau lleol drwy leihau refeniw twristiaeth a chynyddu costau ymladd tanau ac adfer, gan fygwth iechyd pobl drwy anadlu mwg.[32, 33]

Er bod angen gwelliannau sylweddol i seilwaith, mae awdurdodau lleol, yr heddlu a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, neu berchnogion tir preifat yn aml yn ysgwyddo cyfrifoldebau statudol. Gall rannu cyfrifoldeb arwain at fylchau wrth fynd i'r afael â'r prif heriau. Mae cyllid cyfyngedig a llywodraethu nad yw'n gydlynus yn llesteirio ymdrechion i gyflawni gwaith cynllunio twristiaeth hirdymor a chynaliadwy ymhellach.

Ar ben hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ystyried dibenion parciau cenedlaethol y cyfeirir atynt fel y "ddyletswydd adran 62".[34] Gall cydweithio rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chyd-bwyllgorau corfforedig—sy'n gyfrifol am y rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth—helpu i gydlynu'r gorchwyl o reoli ymwelwyr a mentrau teithio cynaliadwy. Gall y dull cydweithredol hwn arwain at ddatrysiadau wedi'u targedu ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd traffig a phroblemau parcio, gan fod o fudd i gymunedau lleol ac ymwelwyr.

Ymhlith y datrysiadau pellach i dagfeydd traffig a phroblemau parcio y mae systemau teithio llesol diogel, mentrau gwyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy. Mae'r enghreifftiau ym mharciau cenedlaethol Cymru yn cynnwys Sherpa'r Wyddfa[35] a'r bartneriaeth 'Ailwefru mewn Natur' gyda BMW, sy'n darparu mannau gwefru trydan ac yn cefnogi prosiectau fel Pâl Gwibio Sir Benfro[36].[37] Mae buddion iechyd teithio llesol wedi'u dogfennu'n dda, gan gynnwys gwell gweithgarwch corfforol, rhyngweithio cymdeithasol a

[29] Daily Mail (2024) *'It's absolute mayhem every weekend': How hordes of TikTokers and staycationers are descending on Snowdonia to find a 'secret quarry' – flooding the area with hundreds of cars, piles of rubbish and anti-social behaviour.* Ar gael yn: 'It's absolute mayhem every weekend': How hordes of TikTokers and staycationers are descending on Snowdonia to find a 'secret quarry' – flooding the area with hundreds of cars, piles of rubbish and anti-social behaviour | Daily Mail Online (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)

[30] Express (2025) *Beautiful natural gem in UK is now an overcrowded tourist destination*.
Ar gael yn: Beautiful natural gem in UK is now an overcrowded tourist destination | UK | Travel | Express.co.uk (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)

[31] DEFRA (2012) Developing a joint approach to improving flood awareness and safety at caravan and camping sites in England and Wales Recommendations of a government-industry working group. Ar gael yn: Developing a joint approach to improving flood awareness and safety at caravan and camping sites in England and Wales (wedi'i gyrchu ar 8 Mai 2025)

[32] Prifysgol Caergrawnt (2025) UK peatland fires are supercharging carbon emissions as climate change causes hotter, drier summers. Ar gael yn: UK peatland fires are supercharging carbon emissions as climate change causes hotter, drier summers | Prifysgol Caergrawnt

[33] Jollands, M., Morris, J. a Moffat, A.J. (2011). Wildfires in Wales. Ar gael yn: http://www.forestry.gov.uk/fr/wildfiresinwales#finalrepor (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)

[34] Deddf yr Amgylchedd 1995. Ar gael yn: Deddf yr Amgylchedd 1995 (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)

[35] Sherpa'r Wyddfa (2025) Sherpa'r Wyddfa | rhwydwaith o wasanaethau bws sy'n eich galluogi i deithio o amgylch Eryri | Parc Cenedlaethol Eryri (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)

[36] National Parks UK (2022) BMW – Prosiect Ailwefru mewn Natur. Ar gael yn: BMW – National Parks (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)

[37] Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2025). Ar gael yn: Bysiau Arfordirol – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)

hygyrchedd. Ar ben hynny, mae lleihau allyriadau cerbydau yn gwella ansawdd aer, ac felly'n fuddiol i iechyd anadlol. [38] Er mwyn annog mwy o deithio llesol, mae blaenoriaethu cerdded a beicio wrth gynllunio a chynnwys seilwaith teithio llesol mewn systemau trafnidiaeth yn strategaethau allweddol.[39]

### 6.2 Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig

Mae'n anochel y bydd gan rai mathau o ddatblygiadau mawr effeithiau sylweddol ar gymeriad y dirwedd a chyfanrwydd amgylchedd parc cenedlaethol. Awdurdod parc cenedlaethol dynodedig yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y parc ac mae'n goruchwylio'r cynllun datblygu lleol, y cynllun rheoli, a'r system rheoli datblygu.

Mae'r fframwaith polisi ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru, a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 yn sicrhau bod parciau cenedlaethol yn cael y diogelwch uchaf rhag datblygiadau amhriodol.[40] Mae'n pwysleisio cadwraeth a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, ochr yn ochr â hyrwyddo mwynhad y cyhoedd. Rhaid i awdurdodau cynllunio gefnogi llesiant cymunedau lleol mewn ffyrdd sy'n gydnaws ag amcanion y parc cenedlaethol. Dim ond mewn achosion eithriadol y caniateir prosiectau mawr y mae angen cyhoeddus profedig amdanynt ar ôl asesiad trylwyr.[41]

Mae angen caniatâd cynllunio mewn parciau cenedlaethol ar gyfer y mwyafrif o'r datblygiadau, weithiau gyda rheolaethau ychwanegol ar waith. Rhaid i gynigion ystyried yr effaith ar y dirwedd, ac mae canlyniadau llwyddiannus yn bosibl drwy geisiadau cynllunio a thrafodaethau ag awdurdod y parc cenedlaethol. Rhwng 2016 a 2022, roedd gan awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol yng Nghymru gyfradd gymeradwyo o 91.4% o'r holl geisiadau cynllunio a ddaeth i law – yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru.[42]

Serch hynny, weithiau gall polisïau cynllunio sy'n canolbwyntio ar gadwraeth mewn parciau cenedlaethol fethu â mynd i'r afael ag anghenion ymarferol y trigolion lleol. Er enghraifft, gall rheoliadau llym gyfyngu ar fynediad i wasanaethau hanfodol neu gyfyngu ar y ffordd y caiff y tir ei ddefnyddio ar gyfer arferion traddodiadol fel ffermio neu bori, sy'n hanfodol i fywoliaeth leol.[43,44,45] Gall y polisïau hyn greu tensiynau rhwng nodau cadwraeth

**Commented [JG1]:** Marsden, T. link below doesn't work. Thanks

[38] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Ar gael yn: Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.pdf (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[39] Pecyn cymorth teithio llesol Sustrans (2017) – Rôl teithio llesol wrth wella iechyd. Ar gael yn: Pecyn cymorth teithio llesol – Rôl teithio llesol wrth wella iechyd – Sustrans.org.uk (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[40] Llywodraeth Cymru (2024) *Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12.* Ar gael yn: Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 12 (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)
[41] Marsden, T. ac eraill (2015) Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/areas-outstanding-natural-beauty-national-parks-2015-report.pdf (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[42] Adroddiadau Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru (2020) Adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cynllunio.Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)
[43] National Parks England (2024) NPE Response to the Exclusion of Protected Landscapes from Changes to the Town and Country Permitted Development Rights 2024. Ar gael yn: NPE Response to the Exclusion of Protected Landscapes from Changes to the Town and Country Permitted Development Rights 2024 — National Parks England (wedi'i gyrchu ar 27 Mawrth 2025)
[44] The Guardian (2023) *Tory MPs and farmers in clash with Natural England over Dartmoor sheep*. Ar gael yn: Tory MPs and farmers in clash with Natural England over Dartmoor sheep | National Parks | The Guardian (wedi'i gyrchu ar 3 Mehefin 2025)
[45] Food, Farming and Countryside Commission (2023) Protected Landscapes that Work for all. Ar gael yn: Protected landscapes that work for all – Food, Farming and Countryside Commission (wedi'i gyrchu ar 3 Mehefin 2025)

a realiti beunyddiol y gymuned, gan dynnu sylw at yr angen am ddull cytbwys sy'n parchu blaenoriaethau amgylcheddol a llesiant trigolion.[46]

Mae'r gofyniad i awdurdodau cynllunio sy'n gyfagos i barciau cenedlaethol asesu effaith eu penderfyniadau ar dirweddau gwarchodedig, gan gynnwys ardaloedd y tu allan i ffiniau'r parc, yn helpu i gryfhau'r amddiffyniad rhag datblygiadau amhriodol. Yn aml, ategir y rhwymedigaeth hon gan bolisïau cryf y cynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, mae yna achosion hefyd pan fo'r ddyletswydd yn cael ei chamddeall neu nad yw'n cael ei gorfodi'n ddigonol.[47]

Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) yn amlinellu strategaeth ynni adnewyddadwy a charbon isel Cymru.[48] Mae datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr wedi'u gwahardd mewn parciau cenedlaethol. Yn lle hynny, mae ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw wedi'u dynodi ar gyfer ynni gwynt, pan ystyrir bod datblygiadau sylweddol a newidiadau tirwedd yn dderbyniol. Y tu hwnt i'r parthau hyn, rhaid i gynigion ar gyfer technolegau eraill sicrhau nad ydynt yn achosi niwed sylweddol i'r dirwedd o'u cwmpas. Mae pob un o'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â nodau cadwraeth, bod y prosiectau'n sensitif i'r amgylchedd ac nad ydynt yn peryglu harddwch naturiol y parc. Gall parciau cenedlaethol arwain graddfa a'r fath o ynni adnewyddadwy drwy eu polisïau cynllunio. [49,50,51]

Nid yn unig y mae cyfyngu ar ddatblygiadau mawr mewn parciau cenedlaethol yn gwarchod yr amgylchedd naturiol, ond y mae hefyd yn cynnig buddion sylweddol i iechyd. Mae lleihau sŵn o brosiectau adeiladu a phrosiectau diwydiannol yn sicrhau bod y parciau'n parhau'n dawelach, gan ddiogelu synau naturiol bywyd gwyllt a thirweddau. Trwy leihau allyriadau o'r cynnydd mewn traffig, defnydd ynni a gweithgarwch diwydiannol, mae ansawdd aer yn gwella, ac o fudd i iechyd anadlol ac yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, mae lleihau datblygiadau ar raddfa fawr yn lleihau'r risg o lygredd dŵr o ddŵr ffo, systemau carthffosiaeth, ac ati, gan ddiogelu ffynonellau dŵr glân sy'n hanfodol ar gyfer gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac iechyd ecosystemau a chymunedau lleol.

Fodd bynnag, mae cyfyngu ar ddatblygiad amhriodol mewn parc cenedlaethol yn aml yn arwain at wthio datblygiad i'w ffiniau. Mae parciau cenedlaethol yn y DU eisoes yn gweld datblygiadau tai sylweddol o amgylch eu ffiniau. Mae'n anochel y bydd y cymunedau newydd hyn yn effeithio ar feysydd fel tynnu a thrin dŵr, systemau trafnidiaeth a mynediad i'r parc, oherwydd bydd pobl am fwynhau'r parc cenedlaethol, a dylai fod ganddynt y cyfle i wneud hynny.[52]

---

[46] Campaign for National Parks (2017) Local Plan Policies on Major Development in National Parks. Ar gael yn: Local-policies-on-major-development-in-National-Parks.pdf (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[47] Prifysgol Sheffield Hallam (2016) An Examination of the Development and Implementation of Planning Policy Relating to Major Development in the English and Welsh National Parks. Ar gael yn: MergedFile (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[48] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2024. Ar gael yn: Diweddariad i Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[49] Bannau Brycheiniog (2025) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ar gael yn: Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[50] Parc Cenedlaethol Eryri (2025) Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031. Ar gael yn: Cynllun-Datblygu-Lleol-Cymraeg.pdf (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[51] Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020) Cynllun Datblygu Lleol 2 (dyddiad terfynu 2031). Ar gael yn: Datganiad ymgysylltu â'r gymuned drafft (5 Gorffennaf) (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[52] South Downs National Park (2025) Major Issues. Ar gael yn: Major Issues – South Downs National Park Authority (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae gostyngiad yn nifer yr oedolion ifanc sy'n berchen ar dai, wedi'i yrru gan y gagendor rhwng cyflogau a phrisiau tai, wedi gorfodi llawer i ymadael â chymunedau gwledig am swyddi gwell a thai fforddiadwy.[53] Gall y mudo hwn arwain at brinder gweithwyr, dirywiad economaidd, ac o bosibl erydiad diwylliannol.

Mae tystiolaeth gadarn gyfyngedig sy'n mynd i'r afael ag effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd a chydlyniant cymunedol, gan gynnwys, er enghraifft, effaith ail gartrefi ar y Gymraeg a diwylliant Cymru.[54]

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gallai tai yn y parciau cenedlaethol ddenu premiwm pris sylweddol, yr amcangyfrifir ei fod bron i 25% yn uwch nag annedd debyg y tu allan i'r parciau, yn seiliedig ar bris tai cyfartalog y DU. [55] Mae'r cynnydd posibl hwn yn cael ei ddylanwadu nid yn unig gan gyfyngiadau cynllunio ar ddatblygiadau newydd, ond hefyd gan atyniad yr amgylchedd naturiol. Er bod premiymau o dros 100% wedi'u gweld mewn rhai parciau cenedlaethol yn Lloegr, mae'n ymddangos bod yr effaith yng Nghymru yn amrywio, gyda chynnydd llai mewn rhai ardaloedd.[56] Mae'r mater hwn yn destun dadansoddiad pellach ac yn cael ei archwilio'n uniongyrchol drwy asesiad economaidd ar wahân a gomisiynwyd gan CNC.

Mae data'n dangos bod cynnydd yn nifer y llety gwyliau tymor byr a gostyngiad mewn perchnogaeth ail gartrefi yng Ngwynedd wedi'i yrru gan bremiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi a'r buddion ariannol o newid i ardrethi busnes annomestig. Er bod tai gwyliau yn dominyddu ardaloedd arfordirol, mae perchnogaeth drefol yn cynyddu, gan brisio 65.5% o drigolion allan o'r farchnad dai. Mewn ymateb, cyflwynodd Cyngor Gwynedd Gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoleiddio cartrefi a ddefnyddir fel ail gartrefi neu lety gwyliau, gan sicrhau rhagor o dai ar gyfer anghenion lleol.[57]

Yn ogystal â Chyfarwyddyd Erthygl 4, mae opsiynau pellach i reoleiddio'r defnydd o gartrefi fel ail gartrefi neu lety gwyliau, gan gynnwys polisi cynllunio i gyfyngu tai newydd i brif breswylfeydd, mesurau ariannol i gynyddu'r premiymau ar ail gartrefi ac addasu meini prawf ardrethi busnes annomestig a thrwyddedu gorfodol ar gyfer darparwyr llety gwyliau.

I'r gwrthwyneb, gallai Cyfarwyddyd Erthygl 4, a mesurau tebyg eraill, arwain at ostyngiad mewn gwerth eiddo mewn rhai ardaloedd, a symud perchnogaeth tai gwyliau i leoliadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rheoliad. Gallai hyn greu anghydbwysedd yn y farchnad dai leol y tu allan i ardaloedd y parciau cenedlaethol, gan effeithio ymhellach ar sefydlogrwydd cymunedau a chyfyngu ar fynediad trigolion i dai fforddiadwy.

Mae polisïau sy'n hyrwyddo datblygu tai cynaliadwy a fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer cymunedau lleol, yn cael eu cefnogi gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol, gan sicrhau bod anghenion tai lleol yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â nodau cadwraeth. Enghraifft ddiweddar o hyn yw cefnogaeth awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gynllun

---

[53] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2018) *Barriers to homeownership for young adults*. Ar gael ar-lein yn: GB9%2520-%2520housing%2520pre-release%2520-%2520final%2520from%2520Judith.pdf (wedi'i gyrchu ar 5 Mawrth 25)
[54] Llywodraeth Cymru (2021) Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth. Ar gael yn: Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth [HTML] | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 25)
[55] The Guardian (2024) *Houses in national parks in England and Wales sell for 25% more, study finds.*
Ar gael yn: Houses in national parks in England and Wales sell for 25% more, study finds | House prices | The Guardian (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)
[56] Lloyds Bank (2020) The costly call of the wild: National Park properties now command an extra £155,000. Ar gael yn: Planning-Appendix-1-Lloyds-press-notice-2020.pdf (wedi'i gyrchu ar 3 Mawrth 2025)
[57] Cyngor Gwynedd (2024) *Cyfarwyddyd Erthygl 4*. Ar gael ar-lein yn: Cyfarwyddyd Erthygl 4 (wedi'i gyrchu ar 5 Mawrth 2025)

prynu i osod Cyngor Gwynedd trwy ariannu prynu eiddo preswyl yn rhannol, a fydd yn cael eu rhentu am brisiau fforddiadwy i bobl leol.[58]

Mae parciau cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr gerdded a heicio, beicio, ymwneud â gweithgareddau dŵr (nofio, caiacio ac ati), dringo a chwaraeon antur (dringo creigiau, bowldro ac ati) a digwyddiadau ffitrwydd ym myd natur (rasys marathon, sesiynau ioga ac ati) a gweithgareddau eraill. Mae darparu cyfleoedd o'r fath wedi'i ymgorffori yn amcanion statudol y parciau cenedlaethol. Mae astudiaethau'n dangos bod y rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn profi mwy o fwynhad a boddhad ac yn dangos bwriad cryfach i gymryd rhan ynddynt eto yn y dyfodol.[59]

Ystyrir bod gweithredu strategaethau rheoli twristiaeth gynaliadwy sy'n ehangu mynediad i fannau gwyrdd, wrth ddarparu cyfleusterau cymunedol sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol, i gyd yn strategaethau hynod effeithiol ar gyfer atal problemau iechyd meddwl a hyrwyddo llesiant cyffredinol.[60] Mae mentrau iechyd cyhoeddus sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol—megis mannau gwyrdd a mannau glas diogel ac opsiynau trafnidiaeth llesol—wedi profi i fod yn gost-effeithiol ac yn cynnig enillion posibl cryf ar fuddsoddiad.[61] Mae unigolion sy'n byw ger mannau gwyrdd a mannau glas o ansawdd uchel yn tueddu i fod yn fwy gorfforol egnïol, yn ymgysylltu â'r mannau hyn yn rheolaidd, ac yn gwneud mwy o ddefnydd ohonynt.[62]

Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn gwella mynediad i fannau gwyrdd drwy ddarparu llwybrau cyfreithiol i bobl archwilio ardaloedd naturiol, gan annog gweithgareddau awyr agored fel cerdded, beicio a marchogaeth ceffylau. Mae statws parc cenedlaethol ym Mannau Brycheiniog wedi gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus, gan flaenoriaethu adfer llwybrau hanesyddol a gwella hygyrchedd trwy fentrau fel y rhaglen 'Mynediad Hawdd i Fannau Brycheiniog'.[63,64]

Fodd bynnag, mae hygyrchedd i barciau cenedlaethol yn anghymesur. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl o liw yn teithio ymhellach, yn ymweld yn llai aml, ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden egnïol.[65] Ar ben hynny, mae llawer o bobl ag anableddau wedi wynebu rhwystrau i ardaloedd natur.[66] Mae yna hefyd gostau afresymol o gael mynediad i amgylcheddau naturiol a threulio amser ynddynt neu

[58] Parc Cenedlaethol Eryri (2025) Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Cefnogi Cynlluniau Tai Fforddiadwy. Ar gael yn: Erthygl – Awdurdod y Parc (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)
[59] Coon ac eraill (2011) Does Participating in Physical Activity in Outdoor Natural Environments Have a Greater Effect on Physical and Mental Wellbeing than Physical Activity Indoors? A Systematic Review. Ar gael yn: Does Participating in Physical Activity in Outdoor Natural Environments Have a Greater Effect on Physical and Mental Wellbeing than Physical Activity Indoors? A Systematic Review | Environmental Science & Technology (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 25)
[60] Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Green and Blue Spaces and Mental Health: New Evidence and Perspectives for Action. Ar gael yn: 9789289055666-eng.pdf (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)
[61] Public Health England (2020) Improving access to greenspace: A new review for 2020. Ar gael yn: Improving access to greenspace: 2020 review (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2915)
[62] National Institute for Health and Care Research (2024) Local green spaces are linked with better mental health. Ar gael yn: Green spaces are linked with better mental health (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)
[63] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2019) Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019–2029. Ar gael yn: Microsoft Word – PCBB CGHT 2019–2029.doc (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)
[64] Bannau Brycheiniog (2025) Mynediad Haws ym Mannau Brycheiniog. Ar gael yn: Mynediad Haws ym Mannau Brycheiniog – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cymru (wedi'i gyrchu ar 19 Mawrth 2025)
[65] Byrne, J., Wolch, J., a Zhang, J. (2009).Planning for environmental justice in an urban national park. Ar gael yn: Planning for environmental justice in an urban national park: Journal of Environmental Planning and Management: Cyfrol 52, Rhif 3 – Cael mynediad (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[66] Aguilar-Carrasco, M. J., Gielen, E., Vallés-Planells, M., Galiana, F., a Riutort-Mayol, G. (2023). Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks. Ar gael yn: Frontiers | Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

agweddau canfyddedig bod mannau natur yn cael eu boneddigeiddio.[67,68] Mae astudiaethau ar ddemograffeg ymwelwyr â pharciau cenedlaethol wedi dangos bod ymwelwyr iau yn gyffredinol yn barod i deithio pellteroedd hirach o gymharu ag ymwelwyr hŷn.[69]

### 6.3 Byw, gweithio a dysgu

Mae parciau cenedlaethol yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy ddefnyddio'r amgylchedd fel sail ar gyfer nifer o fusnesau llwyddiannus a chynnal economi wledig fywiog, sy'n cynnwys sectorau fel amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth a hamdden awyr agored.

Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn cyflogi staff yn uniongyrchol, a gallant hybu cyflogaeth anuniongyrchol drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol. Mae astudiaethau'n dangos y gall dynodiad parc cenedlaethol ddenu rhagor o ymwelwyr, cynyddu eu gwariant ac ymestyn y tymor ymweld, sydd i gyd yn cefnogi swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ac yn cynnal mentrau twristiaeth ar raddfa fach.[70, 71]Yn ogystal, mae parciau cenedlaethol yn aml yn denu lefelau uwch o fuddsoddiad, yn enwedig yn y sectorau twristiaeth, hamdden awyr agored a datblygu hamdden.[72]

Ar ben hynny, mae angen cymwysterau a phrofiad proffesiynol ar lawer o staff y parciau cenedlaethol, gan gynnwys ceidwaid cefn gwlad, cynllunwyr, archaeolegwyr a swyddogion addysg. Gall y rolau hyn helpu i gadw pobl ifanc yn yr ardal neu ddenu gweithwyr proffesiynol cymwys, gan gyfrannu at adfywio cymunedau gwledig.

Fodd bynnag, mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn wynebu adnoddau cyfyngedig sy'n llesteirio eu gallu i gyflawni gwaith ar lawr gwlad.[73] Mae elusennau yn y parciau yn dibynnu'n fawr ar roddion, sy'n annigonol i ariannu'r gweithlu y mae ei angen, ac er bod cyllid grant yn werthfawr, nid yw'n cefnogi recriwtio'n aml.[74] Mae'r ddibyniaeth ar ddefnyddio gwirfoddolwyr i reoli cefn gwlad yn dra hysbys, gyda rhai yn ei hyrwyddo fel ffordd o ennill profiad, tra bod eraill yn ei weld fel arfer sy'n ecsbloetio.[75, 76]Mae

---

[67] Natural England (2022) Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature. Ar gael yn: Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature – TIN183 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[68] Tibber ac eraill (2021) The association between income inequality and adult mental health at the subnational level—a systematic review. Ar gael yn: The association between income inequality and adult mental health at the subnational level—a systematic review | Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology (wedi'i gyrchu ar 13 Mawrth 2025)
[69] Sebastian Dario Rossi, Jason Antony Byrne, Catherine Marina Pickering (2015) The role of distance in peri-urban national park use: Who visits them and how far do they travel? Ar gael yn: The role of distance in peri-urban national park use: Who visits them and how far do they travel? – ScienceDirect (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[70] Journal of Environmental Management (2023) Evaluating economic impacts of protected areas in contexts with limited data; the case of three national parks in Iceland. Ar gael yn: Evaluating economic impacts of protected areas in contexts with limited data; the case of three national parks in Iceland – ScienceDirect (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[71] Andrea Szabó, Gergely Ujhelyi (2024) National Parks and economic development. Ar gael yn: National parks and economic development – ScienceDirect (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[72] Scotland's Countryside Charity (2025) Social and Economic Benefits of National Parks. Ar gael yn: Social and Economic Benefits of National Parks – Action to Protect Rural Scotland (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[73] Archwilio Cymru (2024) Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Ar gael yn: Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[74] Campaign for National Parks (2025) Securing proper funding. Ar gael yn: Securing Proper Funding – Campaign for National Parks (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[75] Third Sector (2017) Too much focus on full-time volunteering 'could risk charities being seen as exploitative'. Ar gael yn: Too much focus on full-time volunteering 'could risk charities being seen as exploitative' | Third Sector (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[76] Vercammen ac eraill (2020) A Reflection on the Fair Use of Unpaid Work in Conservation. Ar gael yn: Conservation and Society (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)

gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol, ond mae swyddi gwyrdd â thâl a phrentisiaethau yn hanfodol i gynnal y rheini sydd wedi ymrwymo i gadwraeth natur.

Mae rhaglenni fel cynllun prentisiaethau Yorkshire Dales Millennium Trust, a gefnogir gan Lywodraeth y DU, yn dangos y potensial i hyfforddi a chadw talent lleol.[77] Gellid ehangu mentrau o'r fath ar draws yr holl barciau cenedlaethol, gan ddarparu nid yn unig ar gyfer pobl ifanc, ond hefyd ar gyfer y rheini sy'n newid gyrfa, sy'n meddu ar sgiliau trosglwyddadwy, gan sicrhau cyfleoedd teg a chyflogaeth gynaliadwy yn y sector.

Mae ffermio yn yr ardal ymgeisiol yn amrywiol, gan gynnwys gweithgareddau fel pori da byw—defaid a gwartheg yn bennaf—coedwigaeth, ffermio llaeth, a ffermio tir âr ar raddfa fach, a reolir yn bennaf gan dirfeddianwyr preifat.[78, 79]Fodd bynnag, mae cymunedau ffermio yn wynebu pryderon cynyddol oherwydd amrywiol heriau, gan gynnwys cyllid yn y dyfodol ac ansicrwydd ynghylch cynigion yn ymwneud â'r dreth etifeddiant. Os na chaiff y pwysau unigryw o ran gweithredu mewn parc cenedlaethol eu datrys gyda chymorth digonol, mae risg sylweddol y gallai llawer o ffermwyr gefnu ar y proffesiwn, a gallai hyn fod yn niweidiol iawn o ran bioamrywiaeth, cynhyrchu bwyd, dirywiad economaidd a threftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn bennaf. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2026, yn anelu at gefnogi'r broses o gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, stiwardiaeth amgylcheddol, a gwytnwch cymunedau gwledig. Gall y cynllun hwn helpu ffermwyr i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gwella diogelwch bwyd, a hyrwyddo llesiant a gwytnwch cymunedau ffermio.[80]

Ymhellach, mae Ffermio Bro Llywodraeth Cymru: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig yn targedu buddsoddiad i gynnal ffermwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth â pharciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gynt). Mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo rheoli tir mewn modd cynaliadwy wrth wella canlyniadau amgylcheddol, profiadau ymwelwyr, a llesiant y gymuned leol. Oherwydd bod Ffermio Bro, a fersiynau yn y dyfodol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer tirweddau dynodedig, nid yw ffermydd y tu allan i'r ardaloedd hyn yn gymwys ar hyn o bryd i gael cymorth drwy'r mecanwaith hwn. Felly, mae gan ddynodiad effaith uniongyrchol a rhagweladwy: dim ond y ffermydd hynny o fewn y dirwedd genedlaethol bresennol neu'r parc cenedlaethol sydd newydd ei ddynodi fyddai'n cael mynediad i'r buddion hyn.[81]

Mae twristiaeth mewn parciau cenedlaethol yn ffynhonnell hanfodol o gyflogaeth, gan gynnal cymunedau lleol. Serch hynny, gall nifer fawr o ymwelwyr â pharciau cenedlaethol effeithio ar ansawdd gwasanaethau a mynediad iddynt, gan arwain at orlenwi, llai o fynediad at fannau gwyrdd, a mwy o bwysau ar wasanaethau lleol. Gall hyn effeithio'n

---

[77] Yorkshire Dales Millennium Trust (2025) Rural Apprentices. Ar gael yn: Rural Apprenticeships Yorkshire Dales | YDMT (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[78] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2024. Ar gael yn: Diweddariad i Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[79] Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Datganiad Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru. Ar gael yn: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyflwyniad i Ddatganiad Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[80] Llywodraeth Cymru (2024) ***Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Ffermio yng Nghymru.*** Ar gael yn: Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Ffermio yng Nghymru (14 May 2024) | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 7 Mawrth 2025)
[81] Llywodraeth Cymru (2025) Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig. Ar gael yn: Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)

negyddol ar ansawdd profiad ymwelwyr a llesiant cymunedau lleol, gan amlygu'r angen am strategaethau rheoli effeithiol i gydbwyso twristiaeth â chadwraeth a darparu gwasanaethau.[29, 30]

Gall nifer uchel o ymwelwyr mewn ardaloedd anghysbell neu ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig mewn parciau cenedlaethol arwain at ddamweiniau, anafiadau neu salwch, gan roi straen ychwanegol ar y gwasanaethau brys, yn enwedig yn ystod tymhorau twristiaeth brig.[82, 83]Ar ôl cael ei enwi'n gyrchfan boblogaidd gan *The New York Times* yn 2024, gwelodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynnydd mawr o ran nifer yr ymwelwyr. Ychwanegodd yr awdurdodau fysiau a thywyswyr teithiau, gan annog dylanwadwyr i barchu 'moesau cefn gwlad', a pheidio â thrin rhaeadrau fel petaent yn draethau. Cyrhaeddodd llawer heb baratoi'n ddigonol ar gyfer tirwedd anghysbell, anrhagweladwy'r parc.[84] Dywedodd Heddlu Gogledd Cymru fod criwiau achub mynydd gwirfoddol dan bwysau mawr oherwydd nifer y galwadau. Ar ddechrau 2025 gwelwyd nifer digynsail o alwadau achub, a bu farw dau unigolyn dros gyfnod o 10 diwrnod. Yn 2024, galwyd Tîm Achub Mynydd Llanberis yn unig 320 o weithiau i achub cerddwyr, gan gynnwys ar Ddydd Nadolig. Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac Instagram wedi sbarduno cynnydd yn nifer y bobl sy'n archwilio mynyddoedd ac ardaloedd arfordirol.[85]

Mae llawer o rannau o ardal arfaethedig y parc cenedlaethol yn wledig, ac er bod nifer o ysbytai cymunedol llai a phractisau meddygon teulu, mae gwasanaethau iechyd mwy arbenigol (e.e. gofal brys, gofal dwys) yn y trefi mwy fel Wrecsam neu Landudno. Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell y parc cenedlaethol, neu'n ymweld â'r ardaloedd hynny, wynebu heriau wrth geisio cael mynediad at ofal iechyd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys, oherwydd y pellteroedd sylweddol i ysbytai mawr, a all gael eu gwaethygu ymhellach gan or-dwristiaeth a thagfeydd traffig. Ar ben hynny, gall yr hinsawdd sy'n newid amharu ar fynediad i wasanaethau trwy ffyrdd sydd wedi'u difrodi gan lifogydd, toriadau pŵer sy'n gysylltiedig â stormydd, a mwy o bwysau ar systemau brys a gofal iechyd, gan ei gwneud yn anoddach cyrraedd neu gael cymorth hanfodol, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus.[86]

### 6.4 Cymunedau gwydn a ffyrdd iach o fyw

Mae defnyddio strategaethau rheoli effeithiol a chynaliadwy, ehangu mynediad i'r amgylchedd naturiol mewn parciau cenedlaethol, ynghyd â darparu cyfleusterau cymunedol sy'n hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol, yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd a llesiant y cyhoedd.[87] Mae tystiolaeth yn dangos y gall treulio amser yn yr amgylchedd

[82] The Free Press (2021) *Tourist population boom puts strain on NHS and Delta variant spread warn Betsi chiefs.*
Ar gael yn: Tourist population boom puts strain on NHS and Delta variant spread warn Betsi chiefs | Denbighshire Free Press
[83] NHS North Cumbria Integrated Care (2020) Public urged not to visit Lake District yet. Ar gael yn: Public urged not to visit Lake District yet: North Cumbria Integrated Care (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[84] Forbes (2024) Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans. Ar gael yn: Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[85] BBC (2025) Mountain rescue teams stretched to breaking point. Ar gael yn: Mountain rescue: Volunteers dealing with 'unprecedented' demand – BBC News (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[86] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – Adroddiad Cryno. Ar gael yn: PHW-Climate-Change-HIA-Summary-Report-Cymraeg-Final-10_2023.pdf (wedi'i gyrchu ar 8 Mai 2025)
[87] Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Green and Blue Spaces and Mental Health: New Evidence and Perspectives for Action. Ar gael yn: 9789289055666-eng.pdf (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)

naturiol feithrin a diogelu iechyd a llesiant da ymhlith pobl o bob oed a gallu.[88, 89]Gwyddys am fuddion gweithgarwch corfforol ers cryn amser, gan gynnwys lleihau'r risg o ordewdra a chyflyrau cronig.[90] Mae astudiaethau hefyd wedi dangos bod amgylcheddau ag amrywiaeth o nodweddion naturiol yn gysylltiedig â mwy o welliannau o ran llesiant meddyliol.[91, 92]

Ar ben hynny, mae cadw a gwarchod y seinweddau naturiol a'r awyr dywyll mewn parciau cenedlaethol yn cynnig buddion hollbwysig o ran iechyd. Mae synau naturiol, heb lygredd sŵn, yn lleihau straen, yn gostwng pwysedd gwaed ac yn gwella eglurder meddyliol, wrth feithrin tawelwch.[93] Mae cadw awyr dywyll yn caniatáu ar gyfer syllu ar y sêr, ac yn gwella ymlacio ac ansawdd cwsg trwy reoleiddio'r rhythm circadaidd.[94] Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion hyn yn creu amgylchedd adfywiol sy'n cynnal llesiant corfforol ac emosiynol.

Mae cynnig mannau lle gall pobl ddod at ei gilydd, fel canolfannau cymunedol neu ardaloedd hamdden awyr agored, yn meithrin rhyngweithio cymdeithasol, sy'n allweddol i lesiant meddyliol.[95]Mae'r mannau hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl gysylltu â natur, y dangoswyd ei bod yn lleddfu gorbryder, iselder a theimladau cyffredinol o unigedd.[96] Trwy flaenoriaethu datblygu mannau o'r fath, gall parciau cenedlaethol ddod nid yn unig yn lleoedd hamdden, ond hefyd yn ganolfannau ar gyfer cryfhau cysylltiadau cymunedol a gwella ansawdd bywyd i bob ymwelydd.

Serch hynny, wrth i ddynodiadau parciau cenedlaethol newydd gynnwys ardaloedd â thir preifat, poblogaethau mwy a gweithgarwch economaidd gweithredol fwyfwy, gall gwrthdaro godi. Er bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys yn fwyfwy mewn cynllunio rheoli parciau cenedlaethol er mwyn sicrhau tegwch, gall fod yn annigonol weithiau pan nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o safbwyntiau lleol.[97] Mae cydbwyso llesiant cymunedol â'r pwysau sy'n wynebu rheolaeth parciau cenedlaethol yn parhau i fod yn her allweddol i'r ardaloedd gwarchodedig hyn.

Ar ben hynny, mae mynediad i barciau cenedlaethol yn aml yn anghyfartal ac yn cael ei ddylanwadu gan amrywiol ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Gall trigolion trefol wynebu rhwystrau fel pellteroedd hir, trafnidiaeth gyhoeddus annigonol, neu'r costau uchel sy'n gysylltiedig â theithio, sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyrraedd yr ardaloedd hyn. Mae anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn gwaethygu'r mater hwn, gan fod cymunedau incwm is yn aml yn brin o fannau gwyrdd cyfagos, ac efallai y byddant yn cael

---

88 Public Health England (2020) Improving access to greenspace: A new review for 2020. Ar gael yn: Improving access to greenspace: 2020 review (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

89 Orsega-Smith, E., Mowen, A. J., Payne, L. L., a Godbey, G. (2004). The Interaction of Stress and Park Use on Psycho-physiological Health in Older Adults. *Journal of Leisure Research*, *36* (2), 232–256. https://doi.org/10.1080/00222216.2004.11950021

90 NHS (2025) Benefits of exercise. Ar gael yn: Benefits of exercise – GIG y DU (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

91 King's College London (2024) Biodiversity is key to the mental health benefits of nature, new study finds.
Ar gael yn: Biodiversity is key to the mental health benefits of nature, new study finds | King's College London (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

92 Buckley, R. (2020). Nature tourism and mental health: parks, happiness, and causation. Ar gael yn: Nature tourism and mental health: parks, happiness, and causation: Journal of Sustainable Tourism: Cyfrol 28, Rhif 9 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

93 Buxton R ac eraill (2021) A synthesis of health benefits of natural sounds and their distribution in national parks. Ar gael yn: buxton-et-al-2021-a-synthesis-of-health-benefits-of-natural-sounds-and-their-distribution-in-national-parks.pdf (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)

94 Cymdeithas Seryddol Prydain (2025) Protected dark-sky areas within the UK. Ar gael yn: Protected dark-sky areas within the UK – Cymdeithas Seryddol Prydain (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)

95 Natural England (2016) A review of nature-based interventions for mental health care (NECR204). Ar gael yn: A review of nature-based interventions for mental health care – NECR204

96 Natural England (2022) Links between natural environments and mental health (EIN065). Ar gael yn:
Links between natural environments and mental health – EIN065

97 Bjørn P. Kaltenborn, Hanne Riese a Michael Hundeide (1999) National Park Planning and Local Participation: Some Reflections from a Mountain Region in Southern Norway. Ar gael yn: National Park Planning and Local Participation: Some Reflections from a Mountain Region in Southern Norway on JSTOR (wedi'i gyrchu ar 28 Mawrth 2025)

trafferth gyda threuliau fel ffioedd mynediad neu gludiant i ardaloedd gwarchodedig.[98, 99] Yn ogystal, mae rhwystrau diwylliannol yn bodoli, gyda rhai grwpiau'n teimlo eu bod wedi'u heithrio oherwydd diffyg arwyddion amlieithog, gweithgareddau sy'n berthnasol i'w diwylliant, neu'r ffaith bod eu cymunedau'n cael eu tangynrychioli mewn mannau awyr agored.[100] Ar ben hynny, mae unigolion ag anableddau yn aml yn wynebu heriau seilwaith, fel llwybrau a chyfleusterau nad ydynt yn hygyrch, sy'n eu hatal rhag mwynhau buddion llawn yr amgylcheddau hyn.[101]

Mae mynediad i fwyd o ansawdd da, sy'n fforddiadwy ac yn faethlon yn bwysig ar gyfer iechyd a llesiant. Mae data'n datgelu bod plant ac oedolion yng Nghymru'n wynebu heriau o ran cyflawni deietau cytbwys, gan fwyta gormod o siwgr, braster dirlawn, halen a chaloriau tra nad ydynt yn cael digon o ffeibr, ffrwythau a llysiau, gan arwain at gyfran sylweddol o'r boblogaeth sydd dros bwysau neu'n ordew.[102]

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru i wella systemau bwyd yng Nghymru yn canolbwyntio ar iechyd, cynaliadwyedd a chydnerthedd economaidd.[103] Maent yn mynd i'r afael â heriau megis gordewdra, maeth gwael, a dibyniaeth ar fwydydd cyfleus, gan hyrwyddo cydweithio rhwng diwydiant, llywodraeth, a chymunedau i annog dewisiadau bwyd iachach ac arferion cynaliadwy. Gall mentrau yn y parc cenedlaethol ategu strategaeth gordewdra Llywodraeth Cymru, Pwysau Iach: Cymru Iach, drwy hyrwyddo mynediad i fwyd iach o ffynonellau lleol.[104]

Gall ffermio chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r broses o reoli tir mewn modd cynaliadwy drwy dwristiaeth bwyd. Mae hyrwyddo cynnyrch lleol yn yr economi ymwelwyr yn helpu i gynnal ffermio, yn cefnogi rheoli tirwedd, yn cadw gwariant yn lleol, ac yn gwella profiad yr ymwelydd.[105] Ar ben hynny, mae polisi cynllunio effeithiol a rheoleiddio trwyddedu yn cynnig cyfle i gyfyngu ar bresenoldeb sefydliadau, fel caffis, bwytai a gwerthwyr bwyd dros dro yn y parc cenedlaethol, sy'n cynnig bwydydd sy'n llawn braster, siwgr a halen.

Nod y parciau cenedlaethol yw gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol drwy amddiffyn safleoedd hanesyddol, hyrwyddo arferion traddodiadol a dathlu diwylliannau lleol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Trwy gynlluniau datblygu lleol a chanllawiau cynllunio atodol gallant gefnogi datblygiad sy'n cynnal y Gymraeg neu'n ei hybu.[106] Gall cynlluniau rheoli a gweithredu ganolbwyntio ar brosiectau'n ymwneud â'r

[98] Natural England (2022) Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature. Ar gael yn: Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature – TIN183 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[99] [99] Tibber ac eraill (2021) The association between income inequality and adult mental health at the subnational level—a systematic review. Ar gael yn: The association between income inequality and adult mental health at the subnational level—a systematic review | Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology (wedi'i gyrchu ar 13 Mawrth 2025)
[100] Byrne, J., Wolch, J., a Zhang, J. (2009).Planning for environmental justice in an urban national park. Ar gael yn: Planning for environmental justice in an urban national park: Journal of Environmental Planning and Management: Cyfrol 52, Rhif 3 – Cael mynediad (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[101] [101] Aguilar-Carrasco, M. J., Gielen, E., Vallés-Planells, M., Galiana, F., a Riutort-Mayol, G. (2023). Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks. Ar gael yn: Frontiers | Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[102] Llywodraeth Cymru (2019) Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau blynyddoedd 1 i 9. Ar gael yn: Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau blynyddoedd 1 i 9 | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[103] Llywodraeth Cymru (2025) Bwyd a diod. Ar gael yn: Bwyd a diod | Is-bwnc | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[104] Llywodraeth Cymru (2023) Pwysau Iach, Cymru Iach, ar gael yn: Strategaeth pwysau iach (Pwysau Iach, Cymru Iach) | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 24 Mawrth 2025)
[105] National Parks UK (2024) Case Studies of Good Tourism Practices in National Parks. Ar gael yn: Case-studies-of-tourism-good-practice-in-UK-National-Parks-FINAL.pdf (13 Mawrth 2025)
[106] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2021) Canllaw Cynllunio Atodol 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Ar gael yn: https://eryri.llyw.cymru/wp-content/uploads/2020/02/Canllaw-Cynllunio-Atodol-3-%E2%80%93-Cynllunio-ar-Iaith-Gymraeg.pdf (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)

amgylchedd hanesyddol wrth hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol, addysg a mwynhad o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal.[107] Mae parciau cenedlaethol yn cynnwys llawer o asedau treftadaeth, sy'n aml yn croesdorri â Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Maent yn gweithio gyda sefydliadau fel Cadw er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau treftadaeth a chefnogi crefftau traddodiadol, gan gynnwys plygu perthi a chodi waliau cerrig sych.[108]

Ar ben hynny, mae mabwysiadu enw Cymraeg yn unig, fel y gwelwyd yn y gwaith diweddar o hyrwyddo enwau Cymraeg ar gyfer Eryri a Bannau Brycheiniog, yn adlewyrchiad cryf o statws y Gymraeg yng Nghymru.[109, 110]

[107] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2023) Gorffennol, Presennol a Dyfodol y Bannau. Ar gael yn: HEAP2023CYM-6.pdf (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[108] Bannau Brycheiniog (2023) Cyfnod Ffrwydrol – y prosiect. Ar gael yn: Cyfnod Ffrwydrol – y prosiect | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)
[109] Parc Cenedlaethol Eryri (2025). Ar gael yn: Papur ynghylch Cymeradwyo egwyddorion enwau lleoedd er mwyn diogelu a dathlu enwau Cymraeg yn y parc cenedlaethol | Parc Cenedlaethol Eryri
[110] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2023). Ar gael yn: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn hawlio ei enw Cymraeg | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (wedi'i gyrchu ar 17 Mawrth 2025)

## 7. Y prif ganfyddiadau: Yr effeithiau ar grwpiau poblogaeth

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai dynodiad parc cenedlaethol newydd yng Nghymru ddylanwadu ar iechyd a llesiant y boblogaeth gyfan. Er y gellir effeithio'n anghymesur ar sawl grŵp allweddol bregus, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r heriau a nodwyd eisoes yn bodoli waeth beth fo'r dynodiad.

Mae sefydlu parc cenedlaethol hefyd yn cynnig cyfle unigryw i leihau anghydraddoldebau iechyd presennol drwy wella mynediad i amgylcheddau, gwasanaethau a seilwaith sy'n hybu iechyd. Felly mae nodi'r poblogaethau hyn yn hanfodol—nid yn unig i liniaru risgiau posibl, ond hefyd er mwyn sicrhau bod buddion y parc yn cael eu rhannu'n deg ac yn cyfrannu at iechyd a llesiant gwell i bawb.

### Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm

#### Pobl sy'n byw ar incwm isel

Mae unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn aml yn wynebu canlyniadau iechyd gwaeth oherwydd ffactorau fel mynediad cyfyngedig i ofal iechyd, amodau byw gwael, a chyfradd uwch o glefydau cronig.[111] Gallai sefydlu parc cenedlaethol gynyddu gwerthoedd eiddo yn yr ardaloedd cyfagos, gan arwain at foneddigeiddio. Gall hyn arwain at grwpiau incwm is yn cael eu dadleoli, gan leihau eu mynediad i fannau gwyrdd neu dai fforddiadwy.[112] Yn ogystal, os cyflwynir ffioedd mynediad neu weithgareddau, efallai na fyddant ar gael i bobl nad oes llawer o arian ganddynt.[113]

### Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran

#### Poblogaethau hŷn

Yn aml, mae oedolion hŷn yn wynebu heriau corfforol a heriau'n ymwneud â symudedd, pryderon iechyd meddwl fel unigrwydd neu ddementia, a mwy o duedd i gael cyflyrau cronig. [114, 115]Er y gall y parc cenedlaethol ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, gallai'r tir neu ddiffyg seilwaith hygyrch gyfyngu ar fynediad unigolion hŷn i gefn gwlad. Er enghraifft, os nad yw llwybrau neu gyfleusterau yn addas i bobl o wahanol oedrannau, os nad yw parcio yn hygyrch, neu os yw cludiant i'r parc yn mynd yn anoddach, efallai y bydd oedolion hŷn yn cael eu heithrio. Os na all yr henoed gael mynediad i'r parc, efallai y byddant yn colli allan ar y buddion o ran iechyd sy'n gysylltiedig â threulio amser mewn natur, fel gwell iechyd meddwl, llai o straen, a mwy o weithgarwch

[111] The King's Fund (2024) Illustrating the relationship between poverty and NHS Services. Ar gael yn: Illustrating the relationship between poverty and NHS services | The King's Fund (wedi'i gyrchu ar 7 Ebrill 2025)
[112] Wolch ac eraill (2014) Urban green space, public health, and environmental justice: The challenge of making cities 'just green enough',
Landscape and Urban Planning. Ar gael yn: Urban green space, public health, and environmental justice: The challenge of making cities 'just green enough' – ScienceDirect (wedi'i gyrchu ar 7 Ebrill 2025)
[113] Natural England (2022) Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature. Ar gael yn: Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature – TIN183 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[114] Ake UK (2024) You are not alone in feeling lonely: Loneliness in later life. Ar gael yn: you-are-not-alone-in-feeling-lonely.pdf (wedi'i gyrchu ar 8 Ebrill 2025)
[115] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2019) Cyflwr y Genedl:Trosolwg o heneiddio yng Nghymru. Ar gael yn: State-of-the-Nation-w-online.pdf (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)

corfforol.[116, 117]Fel arall, os bydd y parc yn cael ei ddatblygu mwy, neu'n dod yn fwy prysur, gall arwain at fwy o straen neu bryderon ynghylch diogelwch unigolion hŷn.[118]

### Plant a phobl ifanc

Mae plant, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd trefol neu ddifreintiedig, yn wynebu heriau unigryw sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, anweithgarwch corfforol, a diffyg mynediad i fannau chwarae a mannau gwyrdd diogel.[119] Gallai'r parc cenedlaethol ddarparu cyfle i gynnig mynediad i bobl ifanc at natur, y dangoswyd ei bod yn gwella iechyd meddwl, yn hybu creadigrwydd, ac yn cefnogi iechyd corfforol trwy weithgareddau awyr agored.[120] Fodd bynnag, os nad yw'r parc wedi'i gynllunio'n ddigonol, gyda mannau sy'n addas i blant, mannau chwarae, neu raglenni addysgol, efallai na fydd y buddion hyn yn cael eu gwireddu'n llawn. Heb seilwaith priodol i gynnal y gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc, efallai na fydd y parc yn hygyrch i blant, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig neu drefol, gan arwain at rwystrau parhaus o ran gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol.[121]

## Grwpiau sydd mewn perygl uwch o wahaniaethu neu dan anfantais gymdeithasol arall

### Pobl anabl

Mae unigolion ag anableddau corfforol, synhwyraidd neu wybyddol yn aml yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i amgylcheddau awyr agored nad ydynt wedi'u cynllunio gan ystyried hygyrchedd.[122]

Gallai datblygu parc cenedlaethol greu rhwystrau ffisegol neu logistaidd anfwriadol o ran hygyrchedd ar gyfer pobl ag anableddau.[123] Er enghraifft, efallai na fydd dyluniad llwybrau, arwyddion a chyfleusterau ymwelwyr yn bodloni'r safonau angenrheidiol o ran hygyrchedd. Byddai mannau parcio nad ydynt yn hygyrch yn golygu y byddai pobl ag anableddau yn colli allan ar y buddion meddyliol, corfforol ac emosiynol o dreulio amser ym myd natur, gan gyfrannu at fwy o ynysu cymdeithasol a gwaethygu canlyniadau iechyd.[124]

### Grwpiau ethnig leiafrifol a grwpiau mudwyr

Mae unigolion ethnig leiafrifol a mudwyr yn aml yn wynebu anghydraddoldebau o ran iechyd, gan gynnwys rhwystrau iaith, gwahaniaethu, a mynediad cyfyngedig i wasanaethau ac adnoddau gofal iechyd sy'n berthnasol i'w diwylliant.[125] Os nad yw

---

[116] Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Green and Blue Spaces and Mental Health: New Evidence and Perspectives for Action. Ar gael yn: 9789289055666-eng.pdf (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)
[117] Public Health England (2020) Improving access to greenspace: A new review for 2020. Ar gael yn: Improving access to greenspace: 2020 review (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)

[118] Orsega-Smith, E., Mowen, A. J., Payne, L. L., a Godbey, G. (2004). The Interaction of Stress and Park Use on Psycho-physiological Health in Older Adults. *Journal of Leisure Research*, *36* (2), 232–256. https://doi.org/10.1080/00222216.2004.11950021
[119] Natural England (2022) Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature. Ar gael yn: Included outside: Engaging people living in low-income areas in nature – TIN183 (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[120] Public Health England (2020) Improving access to greenspace: A new review for 2020. Ar gael yn: Improving access to greenspace: 2020 review (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[121] Dobson ac eraill (2019) Space to Thrive: A rapid evidence review of the benefits of parks and green spaces for people and communities. Ar gael yn: Space to thrive_2019, A rapid evidence review of the benefits of parks and green spaces for people and communities (wedi'i gyrchu ar 8 Ebrill 2025)
[122] Aguilar-Carrasco, M. J., Gielen, E., Vallés-Planells, M., Galiana, F., a Riutort-Mayol, G. (2023). Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks. Ar gael yn: Frontiers | Assessment of barriers for people with disability to enjoy national parks (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[123] Natural England (2022) Included Outside: Engaging people living with disabilities in nature. Ar gael yn: Natural England Access to Evidence – Search Results (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)
[124] Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Green and Blue Spaces and Mental Health: New Evidence and Perspectives for Action. Ar gael yn: 9789289055666-eng.pdf (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)
[125] NHS (2022) Ethnic Inequalities in Healthcare: A Rapid Evidence Review. Ar gael yn: RHO-Rapid-Review-Final-Report_.pdf (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2024)

amwynderau, rhaglenni a gwybodaeth y parc yn ddiwylliannol gynhwysol nac yn hygyrch i bobl sy'n siarad gwahanol ieithoedd, gall grwpiau ethnig leiafrifol deimlo eu bod wedi'u heithrio. Yn ogystal, efallai na fyddant yn cael eu cynrychioli yn ystod y broses o gynllunio datblygiad y parc, gan arwain at ddiffyg ymgysylltu â'r gymuned.[126] Gall grwpiau ethnig leiafrifol sydd wedi'u hymyleiddio wynebu llai o gyfleoedd i elwa ar fannau gwyrdd, a gallai diffyg rhaglenni neu allgymorth sy'n briodol i'w diwylliannau gyfyngu ar faint y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu iechyd yn y parc.[127]

### Grwpiau daearyddol

#### Cymunedau gwledig

Mae llawer o boblogaethau gwledig yng Nghymru yn wynebu heriau megis mynediad cyfyngedig i wasanaethau, ynysu cymdeithasol ac amddifadedd economaidd.[128] Efallai fod ganddynt hefyd gysylltiadau diwylliannol penodol â'r tir yr effeithir arno gan newidiadau yn y ffordd y caiff y tir ei ddefnyddio neu ddynodiad parc.[129] Gallai sefydlu parc cenedlaethol wella economïau lleol, gan elwa ar dwristiaeth, ond o bosibl achosi dadleoli swyddi neu amharu ar amaethyddiaeth draddodiadol. Gall ansicrwydd economaidd a dadleoli gynyddu straen a phroblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, gall twristiaeth a gweithgareddau mewn natur sy'n cael eu rheoli'n dda wella iechyd, cydlyniant cymdeithasol a chyfleoedd cyflogaeth.[130]

### Grwpiau galwedigaethol

#### Ffermio a rheoli'r tir

Mae ffermwyr mewn parciau cenedlaethol yn wynebu pwysau economaidd oherwydd newid yn yr hinsawdd, heriau'n ymwneud â rheoli tir, a pholisïau cadwraeth fel gwaith adfer natur a dal a storio carbon, sy'n tarfu ar arferion traddodiadol.[131] Gall ansicrwydd ychwanegol, fel cynigion treth etifeddiant, waethygu caledi economaidd y cymunedau amaethyddol. [132] Gall gwrthwynebiad i'r newidiadau hyn godi wrth i ffermwyr a rheolwyr tir frwydro i addasu i bolisïau newydd.[133]

#### Y gwasanaethau brys

Gall pwysau cynyddol ar wasanaethau brys, gan gynnwys timau achub mynydd gwirfoddol, roi straen ar adnoddau, arwain at niwed corfforol i ymwelwyr, a pheryglu

[126] DEFRA (2022) Improving the Ethnic Diversity of Visitors to England's Protected Landscapes – BE0180.
Ar gael yn: Improving the Ethnic Diversity of Visitors to England's Protected Landscapes – BE0180 (wedi'i gyrchu ar 12 Mawrth 2025)
[127] Byrne, J., Wolch, J., a Zhang, J. (2009).Planning for environmental justice in an urban national park. Ar gael yn: Planning for environmental justice in an urban national park: Journal of Environmental Planning and Management: Cyfrol 52, Rhif 3 – Cael mynediad (wedi'i gyrchu ar 10 Mawrth 2025)
[128] Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (2016) Rural Poverty in Wales:Existing Research and Evidence Gaps (Saesneg yn unig). Ar gael yn: An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)
[129] Northern Ireland Assembly (2007) Potential impacts of national park designation with particular reference to the proposed Mournes National Park. Ar gael yn: Introduction (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)
[130] Scottish Campaign for National Parks and Association for the Protection of Rural Scotland (2015) The socio-economic benefits of new national park designations in Scotland. Ar gael yn: SC_SCNP-Report-1.pdf (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)
[131] The Times (2024) 'Insulting': the Welsh farmers who fear an eco land grab. Ar gael yn: 'Insulting': the Welsh farmers who fear an eco land grab (wedi'i gyrchu ar 7 Ebrill 2025)
[132] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024) Inheritance tax and farms. Ar gael yn: Inheritance tax and farms | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)
[133] Barnes ac eraill (2016) The effect of the Common Agricultural Policy reforms on farmer intentions towards food production: evidence from livestock farmers. Ar gael yn: 14867830.pdf (wedi'i gyrchu ar 9 Ebrill 2025)

diogelwch ac ansawdd profiadau ymwelwyr, gan effeithio ar lesiant ymwelwyr a thrigolion lleol.[134, 135]

## 8. Y prif ganfyddiadau: Penderfynyddion iechyd a llesiant

Mae'r asesiad o'r effaith ar iechyd wedi nodi y gallai dynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru effeithio ar bob un o'r penderfynyddion iechyd, gyda'r potensial i arwain at effeithiau cronnus a hirdymor ar iechyd ac anghydraddoldebau cyffredinol y boblogaeth.

Gall dynodiad parc cenedlaethol ddylanwadu ar ffactorau fel mynediad i natur, gweithgarwch corfforol, ansawdd aer a dŵr, cyfleoedd cyflogaeth, tai a chydlyniant cymdeithasol. Dros amser, gallai'r effeithiau hyn naill ai leihau neu waethygu anghydraddoldebau iechyd, yn dibynnu ar sut mae'r dynodiad yn cael ei reoli a sut mae'r buddion a'r heriau'n cael eu dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth. Mae natur hirdymor y newidiadau hyn yn pwysleisio'r angen i ystyried yn ofalus y canlyniadau sy'n gwella effeithiau cadarnhaol posibl ar iechyd, a'r rheini sy'n lliniaru'r effeithiau negyddol anfwriadol posibl ar iechyd a nodwyd yn yr asesiad hwn o'r effaith ar iechyd.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr, cyflwynir crynodeb cyflawn o'r holl effeithiau a nodwyd yn y tabl asesu effaith yn Atodiad B.

### 8.1 Y cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol o'r dynodiad parc cenedlaethol newydd:

Os gwneir y penderfyniad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru, mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yn darparu tystiolaeth gref y gallai dynodiad o'r fath wella iechyd a llesiant. Fodd bynnag, bydd y graddau y gwireddir y buddion hyn yn dibynnu ar sut y caiff y dynodiad ei roi ar waith. Ni fydd y dynodiad ar ei ben ei hun yn sicrhau bod polisïau cefnogol, buddsoddiadau wedi'u targedu, na newidiadau ymddygiad yn cael eu gwireddu.

Gall rhai o'r datblygiadau hyn ddigwydd waeth beth fo'r dynodiad, ond mae ymdrechion presennol sydd â'r nod o wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau yn aml yn cael eu cyflawni mewn modd nad yw'n gydlynus neu'n gyson. Mae tystiolaeth i awgrymu, heb ddull mwy strategol a chydlynol, nad yw'r ymdrechion hyn yn cyrraedd eu potensial llawn.[136]

Yn y cyd-destun hwn, gallai parc cenedlaethol wasanaethu fel ffordd o gydlynu'r gwaith a wneir—gan ddod â gwaith presennol ynghyd o dan weledigaeth gyffredin, alinio blaenoriaethau, a chryfhau cydweithio ar draws sectorau. Gallai'r rôl hon helpu i greu'r amodau sy'n galluogi gwelliannau hirdymor, cynhwysol a chynaliadwy i iechyd a llesiant, yn enwedig os yw cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf.

[134] Forbes (2024) Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans. Ar gael yn: Overtourism May Prompt Tourists To Rethink 2025 Travel Plans (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[135] BBC (2025) Mountain rescue teams stretched to breaking point. Ar gael yn: Mountain rescue: Volunteers dealing with 'unprecedented' demand – BBC News (wedi'i gyrchu ar 18 Mawrth 2025)
[136] Llywodraeth Cymru (2024) Llesiant Cymru: 2024. Ar gael yn: Llesiant Cymru: 2024 | LLYW.CYMRU (wedi'i gyrchu ar 8 Mai 2025)

- **Cyd-fuddion o ran yr hinsawdd ac iechyd:** Mae prosiectau adfer, fel adfywio mawndiroedd, yn gwella ansawdd aer, yn gwella'r broses o gadw dŵr, ac yn lliniaru'r risg o lifogydd, gan fod o fudd i'r ecosystem ac iechyd pobl.
- **Bioamrywiaeth a gwytnwch:** Mae ymdrechion cadwraeth yn hybu bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, gan ddarparu buddion ecolegol ac iechyd hirdymor trwy atebion ar sail natur.
- **Hyrwyddo teithio llesol:** Mae annog cerdded, beicio a thwristiaeth ym myd natur yn hybu gweithgarwch corfforol, gan wella llesiant meddyliol a chorfforol.
- **Twf economaidd a llesiant cymunedol:** Mae parciau cenedlaethol yn hybu datblygu cynaliadwy drwy gefnogi economïau gwledig drwy dwristiaeth, amaethyddiaeth gynaliadwy a hamdden awyr agored. Maent yn creu swyddi, yn denu buddsoddiad, ac yn hybu llesiant cymunedau, gan wella twf economaidd a bywydau pobl leol.
- **Hybu iechyd a llesiant drwy fynediad at natur:** Mae parciau cenedlaethol yn darparu mynediad ehangach i fannau gwyrdd a glas, gan hyrwyddo gweithgareddau awyr agored sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, yn lleihau gordewdra a chyflyrau cronig eraill, ac yn gwella iechyd meddwl. Mae'r mannau hyn hefyd yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol a chlymau cymunedol, gan gyfrannu at lesiant cyffredinol.
- **Stiwardiaeth integredig:** Mae ymdrechion cydweithredol rhwng awdurdodau lleol, rheolwyr tir a chymunedau yn sicrhau bod strategaethau cadwraeth a datblygu yn diwallu anghenion lleol, gan hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor.
- **Cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol:** Mae parciau cenedlaethol yn gwarchod y Gymraeg a'i threftadaeth ddiwylliannol drwy gynlluniau rheoli, cynlluniau datblygu lleol, ymgysylltu â'r gymuned, a phrosiectau cadwraeth treftadaeth.
- **Amaethyddiaeth gynaliadwy:** Mae rhaglenni fel y fenter Ffermio Bro yn cynnig y cyfle i hyrwyddo ffermio sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, gan gefnogi'r broses o gynhyrchu bwyd a chynaliadwyedd gwledig.

### 8.2 Effeithiau negyddol a chanlyniadau anfwriadol o'r dynodiad parc cenedlaethol newydd

Mae'r asesiad o'r effaith ar iechyd wedi nodi amrywiaeth o effeithiau negyddol posibl ar iechyd, a chanlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o ddynodi parc cenedlaethol newydd. Gall y risgiau hyn, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd allweddol, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd, ansawdd yr amgylchedd, cyfleoedd cyflogaeth, a chydlyniant cymdeithasol.

Er bod llawer o'r heriau hyn eisoes yn bodoli yn yr ardal dan sylw, mae dynodiad parc cenedlaethol yn gyfle strategol i fynd i'r afael â phroblemau hirhoedlog a gwella canlyniadau iechyd a llesiant trwy ddull mwy integredig a chynaliadwy.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â dynodiad, ac yn nodi meysydd lle bydd strategaethau lliniaru wedi'u targedu yn hanfodol. Mae gwerthusiad systematig o'r effeithiau hyn yn hanfodol i lywio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a sicrhau bod buddion y dynodiad yn cael eu cynyddu i'r eithaf tra bod niweidiau posibl yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol.

- **Adnoddau cyfyngedig:** Yn aml, mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn wynebu cyfyngiadau o ran cyllid a staffio, gan rwystro eu gallu i weithredu rhaglenni cadwraeth a rhaglenni cymunedol effeithiol. Gall gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr a chyllid annigonol gyfyngu ar gwmpas mentrau.
- **Gordwristiaeth a phwysau ar y seilwaith a gwasanaethau lleol:** Gall niferoedd uchel o ymwelwyr arwain at orlenwi, dirywio amgylcheddol, a mwy o bwysau ar seilwaith lleol a gwasanaethau hanfodol. Mae ardaloedd anghysbell yn arbennig o fregus, oherwydd gall twristiaeth orlethu gwasanaethau brys a chynyddu'r perygl o ddamweiniau, anafiadau a thanau gwyllt. Mae twf mewn twristiaeth hefyd yn cyfrannu at heriau seilwaith, gan gynnwys rheoli gwastraff, tagfeydd ffyrdd a all amharu ymhellach ar gymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Yn ogystal, gall ymwelwyr sy'n anghyfarwydd â risgiau amgylcheddol lleol, megis llifogydd, fod yn fwy agored i niwed yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, gan roi mwy o straen ar systemau ymateb i argyfwng.
- **Pwysau datblygu:** Gall polisïau cadwraeth llym wrthdaro ag anghenion datblygu lleol, gan greu tensiwn rhwng yr angen i ddiogelu'r amgylchedd a gofynion ymarferol trigolion, megis tai a'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau traddodiadol. Gall hyn arwain at brinder tai neu ansefydlogrwydd economaidd.
- **Mynediad i ofal iechyd:** Gall mynediad i ofal iechyd arbenigol mewn ardaloedd anghysbell yn y parciau cenedlaethol fod yn gyfyngedig oherwydd y pellter o ysbytai mawr, a'i waethygu gan dagfeydd traffig, gan greu heriau mewn sefyllfaoedd meddygol brys neu argyfwng.
- **Allgáu ac anghydraddoldeb:** Gall rhwystrau fel seilwaith annigonol, cyfyngiadau trafnidiaeth, a ffactorau diwylliannol gyfyngu ar fynediad i barciau cenedlaethol ar gyfer cymunedau incwm is, pobl ag anableddau, pobl o liw, a thrigolion trefol, gan waethygu anghydraddoldebau cymdeithasol a chyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a mentrau iechyd.
- **Pwysau economaidd ar ffermio:** Mae ffermwyr mewn parciau cenedlaethol yn wynebu pwysau ariannol oherwydd mentrau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, a pholisïau sy'n datblygu. Gall yr heriau hyn orfodi llawer i ymadael â ffermio, a gallai hyn effeithio ar fioamrywiaeth, diogelwch bwyd a'r economi wledig.
- **Materion yn ymwneud â fforddiadwyedd tai:** Gall galw mawr am dai ger parciau cenedlaethol, ynghyd â rheoliadau datblygu llym, gynyddu prisiau tai, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl leol fforddio byw yn yr ardal ac arwain at fudo posibl a dirywiad economaidd.

## 9. Meysydd gweithredu:

Daeth proses yr asesiad o'r effaith ar iechyd â thystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd, deallusrwydd iechyd cymunedau a phoblogaeth, a mewnwelediadau cymunedol a rhanddeiliaid ynghyd, gan ddatgelu y gallai sefydlu parc cenedlaethol newydd yng Nghymru ddylanwadu ar bob penderfynydd iechyd, a allai arwain at effeithiau cronnus a hirdymor ar iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau.

Mae dynodiad parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle i wella iechyd a llesiant yn sylweddol. Fodd bynnag, bydd gwireddu'r buddion hyn yn ddibynnol ar weithredu'r dynodiad mewn modd effeithiol, gan na fydd y dynodiad ar ei ben ei hun yn gwarantu'r newidiadau mewn polisi, y buddsoddiadau na'r newidiadau mewn ymddygiad angenrheidiol. Er y gall rhai gwelliannau ddigwydd yn annibynnol ar y dynodiad, nid yw'r ymdrechion presennol i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau yn aml yn ddigon cydlynus nac yn gyson, gan gyfyngu ar eu potensial llawn.

Gallai'r parc cenedlaethol wasanaethu fel mecanwaith cydlynu strategol, gan ddod â mentrau presennol ynghyd, alinio blaenoriaethau, a meithrin cydweithio ar draws sectorau. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cynnig fframwaith canolog ar gyfer yr integreiddio hwn, gan arwain gweithredu ar y cyd ar gadwraeth, llesiant cymunedol a datblygu cynaliadwy. I ategu hyn, mae dyletswydd Adran 62 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol ystyried dibenion parciau cenedlaethol yn eu swyddogaethau, gan sicrhau bod penderfyniadau ar draws sectorau yn cyfrannu at weledigaeth gydlynol ar gyfer yr ardal. Os yw cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn y dull hwn o'r cychwyn cyntaf, gall y parc cenedlaethol helpu i ysgogi gwelliannau hirdymor, cynhwysol a chynaliadwy mewn iechyd a llesiant, yn enwedig ar gyfer cymunedau sydd wedi bod dan anfantais yn hanesyddol.

Ar yr un pryd, mae'r asesiad hwn o'r effaith ar iechyd yn tynnu sylw at sawl risg bosibl a chanlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r dynodiad, yn enwedig y rheini a allai effeithio ar benderfynyddion iechyd. Er bod llawer o'r heriau hyn eisoes yn bodoli yn y rhanbarth, mae'r dynodiad parc cenedlaethol yn cynnig cyfle gwerthfawr i fynd i'r afael â hwy mewn modd mwy integredig a chyfannol.

Mae'n hanfodol asesu a rheoli'r risgiau hyn drwy strategaethau lliniaru wedi'u targedu, gan sicrhau bod buddion y dynodiad yn cael eu gwireddu'n llawn wrth leihau'r effeithiau negyddol posibl i'r graddau lleiaf posibl. Dros amser, gallai canlyniadau'r dynodiad naill ai leihau neu waethygu anghydraddoldebau iechyd, yn dibynnu ar sut y mae'n cael ei reoli a sut y mae ei fuddion yn cael eu dosbarthu ymhlith gwahanol grwpiau.

Drwy ymgorffori camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y cynllun rheoli, gall y parc cenedlaethol wneud y mwyaf o'i gyfraniadau i'r amgylchedd, y gymdeithas a'r economi, gan sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor a'i effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol.

**Cydweithredu a chyllido gwell:** Cryfhau cydweithio rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol, cymunedau lleol, llywodraeth a busnesau er mwyn sicrhau ymdrechion cydlynol wrth reoli twristiaeth, seilwaith a defnyddio'r tir mewn modd cynaliadwy gan sicrhau bod anghenion a phryderon trigolion lleol yn cael eu hystyried. Mae mwy o gyllid ar

gyfer rheolaeth ar lawr gwlad, gan gynnwys cymorth ar gyfer swyddi a phrentisiaethau gwyrdd, yn hanfodol ar gyfer llwyddiant hirdymor.

**Y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ymaddasu iddo, ac adfer natur:** Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo wrth wraidd gwaith cynllunio a rheoli'r parc cenedlaethol. Cyd-fynd ag *archwiliad dwfn bioamrywiaeth* Llywodraeth Cymru a'r uchelgais 30x30 drwy hyrwyddo gwaith adfer natur, gan gefnogi arferion rheoli tir carbon isel. Annog dulliau addasol sy'n sicrhau bod datblygiadau newydd yn cefnogi nodau sero net ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor. Hyrwyddo ymddygiadau gwyrdd ymhlith ymwelwyr a thrigolion i leihau ôl troed carbon, gwella bioamrywiaeth, ac adeiladu cymunedau sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn well. Sicrhau bod ymdrechion o'r fath yn gynhwysol ac yn cael eu dosbarthu'n deg er mwyn osgoi gwaethygu unrhyw anghydraddoldebau iechyd ac amgylcheddol sy'n bodoli eisoes.

**Rheoli twristiaeth yn gynaliadwy:** Gweithredu strategaethau wedi'u targedu ar gyfer rheoli nifer yr ymwelwyr, gan gynnwys hyrwyddo twristiaeth ar adegau allfrig, annog systemau teithio llesol diogel ac effeithiol, a buddsoddi mewn systemau trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai polisïau hefyd fynd i'r afael â materion fel y perygl o lifogydd, tanau gwyllt, tipio anghyfreithlon a pharcio anghyfrifol, gan sicrhau nad yw twf twristiaeth yn peryglu bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol. Lansio ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus sy'n hyrwyddo diogelwch, offer / dillad cywir, ymwybyddiaeth o dirwedd, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd cyfrifol ac ati.

**Tai fforddiadwy a chynaliadwy:** Blaenoriaethu mentrau tai fforddiadwy ar gyfer cymunedau lleol, gan gydbwyso cadwraeth ag anghenion economaidd-gymdeithasol trigolion. Gallai hyn gynnwys polisïau sy'n cyfyngu ar ail gartrefi, yn rheoleiddio tai rhent tymor byr, ac yn annog prosiectau tai sy'n darparu ar gyfer poblogaethau lleol heb danseilio'r amgylchedd naturiol.

**Cynhwysiant a hygyrchedd:** Ehangu mentrau hygyrchedd yn y parciau cenedlaethol er mwyn sicrhau y gall grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, megis grwpiau ethnig leiafrifol, unigolion ag incwm isel, a'r rheini ag anableddau, yn mwynhau'r mannau hyn yn llawn. Gellir cyflawni hyn drwy wella seilwaith, gan gynnwys llwybrau a chyfleusterau hygyrch sy'n addas ar gyfer unigolion o bob oedran, gallu ac ym mhob cyfnod o'u bywydau. Gall cydweithio â chymunedau lleol a grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, er mwyn llunio rhaglenni cynhwysol, helpu i ymgysylltu â phoblogaethau amrywiol mewn gweithgareddau awyr agored. Gall mesurau ychwanegol, megis arwyddion cynhwysol, creu mannau sy'n gyfeillgar i blant, mentrau rhentu offer fforddiadwy, cynnig gweithgareddau â chymhorthdal neu rai am ddim, a chyfleusterau cynhaliol (megis meinciau a mannau gorffwys ar gyfer defnyddwyr pellter byr) wella hygyrchedd ymhellach, a byddant yn sicrhau mynediad mwy cyfartal i bawb.

**Cymorth i amaethyddiaeth gynaliadwy a menter wledig:** Darparu cymorth parhaus i ffermwyr mewn parciau cenedlaethol i'w helpu i fabwysiadu arferion cynaliadwy, yn enwedig drwy raglenni fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r fenter Ffermio Bro. Ochr yn ochr â hynny, dylai'r cymorth ymestyn i fentrau gwledig cynaliadwy eraill sy'n cyfrannu at wytnwch economaidd, llesiant cymunedol, a stiwardiaeth amgylcheddol.

**Polisïau cynllunio addasol:** Adolygu ac addasu polisïau cynllunio i daro cydbwysedd rhwng cadwraeth ac anghenion ymarferol cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys ailasesu effaith datblygiadau ar ffiniau parciau cenedlaethol, ac archwilio datrysiadau arloesol ar gyfer rheoli tai, seilwaith a gwasanaethau heb beryglu cyfanrwydd y dirwedd.

**Gwella cyfleoedd iechyd meddwl ac iechyd corfforol:** Defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella iechyd drwy annog gweithgareddau awyr agored sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol, yn enwedig i'r rheini mewn ardaloedd difreintiedig neu drefol a allai fod â mynediad cyfyngedig i fannau gwyrdd. Gweithredu rhaglenni hyrwyddo iechyd wedi'u targedu, sy'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau bregus penodol. Er enghraifft, gallai rhaglenni llesiant i'r henoed, mentrau ymgysylltu â phobl ifanc, a rhaglenni diwylliannol i bobl ethnig leiafrifol helpu i bontio bylchau o ran cyfranogiad a llesiant.

**Cefnogi systemau bwyd lleol ac iechyd:** Gall annog twristiaeth bwyd fel rhan o'r economi ar gyfer ymwelwyr helpu i gynnal ffermio lleol, hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r tir, a chyfoethogi profiad yr ymwelwyr, gan leihau dibyniaeth ar werthwyr bwyd nad yw'n iach, neu nad ydynt yn lleol, mewn parciau cenedlaethol. Ar yr un pryd, mae cryfhau cynhyrchu a chaffael bwyd lleol yn cefnogi systemau bwyd rhanbarthol, yn hybu diogelwch bwyd, yn atgyfnerthu economïau gwledig, ac yn lleihau'r effaith y mae cludo pellter hir yn ei chael ar yr amgylchedd.

## 10. Casgliad

Mae dynodiad parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn gyfle sylweddol i wella iechyd a llesiant drwy wella mynediad i natur, datblygu economaidd, a chryfhau cydnerthedd cymunedau. Fodd bynnag, mae llwyddiant y fenter hon yn dibynnu ar ba mor effeithiol y caiff y dynodiad ei reoli, gan sicrhau bod buddion yn cael eu dosbarthu'n deg tra bod y risgiau posibl yn cael eu lliniaru.

Er bod llawer o'r heriau a nodwyd eisoes yn bodoli'n annibynnol ar y dynodiad, mae creu parc cenedlaethol yn gyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd mwy integredig a strategol. Mae gan y parc cenedlaethol y potensial i wasanaethu fel fframwaith uno, gan ddod â'r ymdrechion presennol i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi datblygu cynaliadwy ynghyd. Bydd cydweithredu a chyllid cryfach yn hanfodol ar gyfer rheoli twristiaeth, seilwaith ac economïau gwledig wrth ddiogelu bywoliaeth pobl leol. Rhaid i'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwaith adfer natur, a defnyddio'r tir mewn modd cynaliadwy fod wrth wraidd y broses cynllunio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor.

Rhaid i gydraddoldeb barhau i fod yn flaenoriaeth, gan fynd i'r afael ag anghenion grwpiau bregus. Rhaid i'r parc roi polisïau cynhwysol ar waith sy'n gwella hygyrchedd a chynrychiolaeth, gan sicrhau y gall pob cymuned elwa'n llawn ar fannau awyr agored. Yn ogystal, rhaid i bolisïau gefnogi tai fforddiadwy, economïau gwledig, ac arferion ffermio cynaliadwy i amddiffyn cymunedau lleol ac atal dadleoli.

Rhaid rheoli'r pwysau posibl ar wasanaethau brys, seilwaith twristiaeth ac ymdrechion cadwraeth yn ofalus drwy strategaethau cynllunio addasol, gan sicrhau twf cynaliadwy mewn ymwelwyr heb beryglu diogelwch y cyhoedd na chyfanrwydd yr amgylchedd. Bydd dull cytbwys o ddatblygu polisïau, buddsoddi economaidd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor y dynodiad.

Yn y pen draw, gall parc cenedlaethol fod yn arf pwerus ar gyfer gwella iechyd a llesiant, ond dim ond os caiff ei gynllunio'n feddylgar gyda thegwch, cynaliadwyedd a gwytnwch hirdymor yn sail iddo. Drwy ymgorffori camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a meithrin ymgysylltiad cynhwysol, gall Cymru greu parc cenedlaethol sy'n cefnogi cadwraeth amgylcheddol wrth gyfrannu'n weithredol at lesiant ei holl drigolion.